

Defnyddio'r Gymraeg mewn Cymunedau yn Ynys Mon

Hodges, Rhian; Prys, Cynog; Bonner, Elen; Orrell, Alison; Gruffydd, Ianto

Cyhoeddwyd: 28/07/2023

PDF y cyhoeddwr, a elwir hefyd yn Fersiwn o'r cofnod

[Cyswllt i'r cyhoeddiad / Link to publication](#)

Dyfyniad o'r fersiwn a gyhoeddwyd / Citation for published version (APA):

Hodges, R., Prys, C., Bonner, E., Orrell, A., & Gruffydd, I. (2023). *Defnyddio'r Gymraeg mewn Cymunedau yn Ynys Mon*.

Hawliau Cyffredinol / General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ar Ynys Môn

DR RHIAN HODGES A DR CYNOG PRYS

GYDAG ELEN BONNER, DR ALISON ORRELL,

A DR IANTO GRUFFYDD

PRIFYSGOL BANGOR

GORFFENNAF 2023

Cynhyrchwyd fel rhan o elfen 'Iaith Môn'

Rhaglen Adfywio Môn drwy

Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig

Tabl Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol	2
2.	Rhestr Ffigurau a Thablau	6
3.	Cyflwyniad	7
4.	Methodoleg	9
5.	Moeseg Ymchwil	10
6.	Canlyniadau'r Astudiaeth Ymchwil	11
	Data Meintiol yr Arolwg ar-lein	11
	Data Ansoddol yr Arolwg ar-lein	32
	Canlyniadau Grwpiau Ffocws yn ôl Cymuned	40
	Amlwch	41
	Caergybi	44
	Llangefni	48
	Sylwadau pobl ifanc am addysg ar Ynys Môn	51
7.	Trafodaeth ar Brif Ganlyniadau'r Ymchwil	53
8.	Casgliadau ac Argymhellion yr Astudiaeth Ymchwil	57
9.	Llyfryddiaeth	60
10.	Atodiadau	61

1. Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

- 1.1 Ym Mawrth 2022 comisiynwyd Prifysgol Bangor (Hodges a Prys) i gynnal astudiaeth ymchwil ar ran Cyngor Sir Ynys Môn a Menter Iaith Môn i archwilio'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Diben yr astudiaeth ymchwil oedd ychwanegu at ddealltwriaeth y comisiynwyr o sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cymunedau ar Ynys Môn.
- 1.2 Lluniwyd y prosiect ymchwil fel rhan o'r elfen 'Iaith Môn' o raglen Adfywio Môn drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig i astudio'r cyfleoedd a'r heriau amrywiol a wyneba cymunedau Ynys Môn wrth geisio cynnal ac adfywio'r Gymraeg yn gymunedol. Clustnodwyd amserlen ymchwil o Ebrill i Ragfyr 2022 er mwyn cwblhau'r astudiaeth ymchwil, Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn.

Nod ac amcanion

- 1.3 Nod yr astudiaeth ymchwil hon oedd astudio sefyllfa gyfredol yr iaith Gymraeg ar Ynys Môn gan ffocysu ar yr amcanion ymchwil isod:
 - i. Cynnig dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn ôl defnydd iaith, y gweithgareddau cymunedol sydd ar gael drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith
 - ii. Cydnabod a gwahaniaethu rhwng y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y cymunedau ymchwil
 - iii. Deall unrhyw rwystrau posib sy'n atal y defnydd o'r iaith o fewn y cymunedau ymchwil
 - iv. Rhannu arfer da a chynnig argymhellion allweddol i'r Fforwm Iaith a'r holl bartneriaid megis Menter Iaith Môn
- 1.4 Ynghyd â'r amcanion uchod, ystyriwyd y cwestiynau ymchwil isod hefyd:
 - i. Oes yna gyfleoedd i leoliadau neu grwpiau cymunedol weithio fel mentoriaid cymunedol iaith Gymraeg i leoliadau neu grwpiau cymunedol eraill?
 - ii. Ydy'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned yn ddigon hygyrch ac a oes gan bawb fynediad atynt?

- iii. Oes yna unigolion o gefndiroedd penodol sydd heb fynediad i weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog?

Methodoleg

- 1.5 Defnyddiwyd dulliau ymchwil cymysg i gasglu data ar gyfer yr astudiaeth ymchwil hon. Lluniwyd arolwg ar-lein er mwyn casglu data ynghylch y cyfleoedd a oedd gan drigolion Ynys Môn i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws yr ynys (sampl o 514 ymatebydd).
- 1.6 Yn ogystal, cynhaliwyd cyfanswm o naw grŵp ffocws gydag unigolion o fewn tair cymuned ddaearyddol ar Ynys Môn, sef cymunedau Amlwch, Caergybi a Llangefni. O fewn pob cymuned unigol, cynhaliwyd tri grŵp ffocws gyda'r grwpiau canlynol: pobl ifanc 16-18 oed, pobl fusnes ac unigolion oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Ynys Môn yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.
- 1.7 Dewiswyd y tri grŵp hyn mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ynys Môn a Menter Iaith Môn oherwydd bod y tri grŵp yn cael eu hadnabod fel grwpiau o ddiddordeb arbennig er mwyn deall mwy am eu patrymau a'u hymddygiad ieithyddol.

Canlyniadau Allweddol

- 1.8 Cafwyd tystiolaeth o'r astudiaeth ymchwil bod cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gwahanol gymunedau Ynys Môn. Roedd y Gymraeg yn iaith naturiol o ddydd i ddydd mewn rhai cymunedau ond roedd tystiolaeth o gymunedau lle roedd llai o Gymraeg yn cael ei defnyddio, a gwelwyd tuedd i ddefnyddio Saesneg mewn rhyngweithiadau cymunedol (e.e. siopau a busnesau) a gweithgareddau cymunedol (e.e. clybiau hamdden).
- 1.9 Y sfferau lle roedd ymatebwyr yr arolwg ar-lein yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg oedd y teulu, y gweithle a gyda ffrindiau. Roedd yr astudiaeth hefyd yn tynnu sylw at y sfferau defnydd iaith hynny lle nad oedd yr ymatebwyr yn defnyddio neu'n clywed llawer o Gymraeg (e.e. maes hamdden, gwirfoddoli, siopau a busnesau ac wrth gyrchu gwasanaethau).
- 1.10 Roedd canfyddiad ymhlith rhai siaradwyr Cymraeg bod shiftt ieithyddol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar waith o fewn eu cymunedau. Awgryma hyn fodolaeth cyd-destun defnydd iaith dwyieithog a chymhleth ar Ynys Môn sydd yn codi heriau gwirioneddol ym maes cynllunio ieithyddol.
- 1.11 Mae data'r astudiaeth hon yn awgrymu bod dylanwad rhuglder ac arferion ieithyddol yn ffactorau allweddol mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg ar Ynys Môn. Awgrymai'r data fod siaradwyr Cymraeg rhugl yn defnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau gwahanol. Er hynny, roedd tystiolaeth eu bod hefyd yn defnyddio cryn dipyn o Saesneg yn y gymuned.
- 1.12 Un o brif ganfyddiadau'r arolwg oedd nad oedd yr ymatebwyr a oedd yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn gwneud defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn y gymuned. Awgrymai hyn fod yna

duedd i ddefnyddio'r Saesneg fel iaith gymunedol, mewn rhai achosion, hyd yn oed pan oedd unigolion yn gymharol rugl yn y Gymraeg.

- 1.13 Amlygai'r data berthynas amlwg rhwng yr amser yr oedd ymatebwyr wedi byw ar Ynys Môn a'u rhuglder yn y Gymraeg. Mae data'r arolwg yn awgrymu bod unigolion nad oeddent yn enedigol o Ynys Môn yn llai tebygol o fod yn rhugl eu Cymraeg.
- 1.14 Amlygai'r data bwysigrwydd y system addysg fel sffêr defnyddio a throsglwyddo'r Gymraeg o fewn cymunedau Ynys Môn. Er hynny, roedd yna dystiolaeth bod pobl ifanc yn wynebu heriau wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dewis a'u defnydd o iaith o fewn y system addysg (e.e. tuedd i ddewis astudio pynciau trwy gyfrwng y Saesneg).
- 1.15 Yn ôl ymatebwyr yr astudiaeth hon roedd canfyddiad bod ail gartrefi, tai haf a thwristiaeth yn heriau i'r Gymraeg ar Ynys Môn. Cynrychiolai hyn ffactorau economaidd ehangach sydd angen eu hystyried ochr yn ochr â strategaethau cynllunio ieithyddol cymunedol.

Casgliadau

- 1.16 Mae dystiolaeth o'r astudiaeth ymchwil hon yn awgrymu bod nifer o ffactorau yn effeithio ar ruglder a'r defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol ar Ynys Môn, gan gynnwys dylanwadau gan feysydd fel addysg, y teulu a'r gweithle. Mae dylanwadau'r sfferau trosglwyddo a defnyddio iaith amrywiol o fewn cymunedau Ynys Môn yn amlygu'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth archwilio ymddygiad ieithyddol o fewn y gymuned.
- 1.17 Mae rhuglder, yn benodol, yn thema allweddol sy'n dylanwadu ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg ar Ynys Môn. Ymddengys bod angen cynlluniau a chydweithio traws sefydliadol ym meysydd addysg, y gweithle, siopau a maes hamdden er mwyn meithrin a chynnal rhuglder yn enwedig ymhlith siaradwyr Cymraeg newydd.
- 1.18 Yn benodol, mae'n bwysig cydnabod cefndiroedd ieithyddol amrywiol o fewn yr astudiaeth hon. Mae siaradwyr Cymraeg llai hyderus a llai rhugl angen anogaeth, cefnogaeth a chydabyddiaeth o'u sgiliau Cymraeg er mwyn iddynt allu gwneud y defnydd mwyaf o'r Gymraeg o fewn gweithgareddau a rhyngweithiadau cymunedol o ddydd i ddydd.
- 1.19 Ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl, mae hefyd angen ystyried hyder, ond yn yr achos yma, hyder i ddefnyddio eu Cymraeg mewn rhyngweithiadau cymdeithasol ar Ynys Môn. Mae hyn hefyd yn cynnwys yr hyder i siarad â dysgwyr yn Gymraeg, yn ogystal â throsglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf. Mae'r astudiaeth hon yn amlygu'r angen i barhau i ddatblygu cynlluniau sy'n targedu defnydd iaith o fewn y sfferau allweddol, fel ffordd o adeiladu ar y pilerau defnydd iaith allweddol mewn modd holistig sy'n cydnabod cymhlethdod a natur aml-haenog y defnydd cymunedol o iaith. Y nod fyddai meithrin patrymau defnyddio a throsglwyddo iaith a fyddai'n arwain at ddilyniant ieithyddol o'r aelwyd i'r ysgol, i'r gweithle, a'r gymuned yn ehangach.
- 1.20 Mae'n bwysig cydnabod yr angen i gynnal cydweithio pellach rhwng rhanddeiliaid allweddol megis Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Menter Iaith Môn, ysgolion y sir ac actorion

cymunedol o fewn cymunedau gwahanol ar yr ynys. Y nod yw cynnal a datblygu sfferau defnydd iaith amlwg ar Ynys Môn (e.e. y teulu, y gymuned, addysg a'r gweithle) lle mae defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Mae'n bwysig ystyried llwybrau dilyniant ieithyddol rhwng y sfferau defnydd iaith sydd yn dyngedfennol am eu bod yn cynnal a datblygu sgiliau unigolion ac yn cefnogi'r canfyddiad bod y Gymraeg yn iaith hyfyw i holl drigolion Môn.

Argymhellion

1. Ystyried sut mae'r sfferau defnydd iaith hyn yn cysylltu â'i gilydd i ddylanwadu ar ddefnydd iaith cymunedol o ddydd i ddydd (e.e. y teulu, addysg y gweithle).
2. Creu cynlluniau i fagu rhuglder a hyder unigolion sy'n gallu siarad 'cryn dipyn o Gymraeg' ond nad ydynt yn gwneud defnydd helaeth ohoni, yn enwedig o fewn sfferau defnydd iaith penodol, gan gynnwys y teulu, addysg, gweithle, siopau a maes hamdden.
3. Parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn siopau a busnesau gan ddefnyddio arwyddion sy'n annog a chroesawu'r defnydd o'r Gymraeg (e.e. bathodynau iaith).
4. Creu cynlluniau i geisio dylanwadu ar glybiau a hyfforddwyr gweithgareddau hamdden cymunedol i ystyried y Gymraeg fel rhan o'u gweithgareddau.
5. Blaenoriaethu cynlluniau sy'n annog siaradwyr Cymraeg rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg gydag unigolion sy'n llai rhugl yn y Gymraeg.
6. Parhau â chynlluniau i annog disgyblion ysgol i astudio pynciau Lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg rhugl a llai rhugl.
7. Cynnal gwaith pellach wrth gyfeirio disgyblion ac athrawon at adnoddau addysgol Cymraeg sydd ar gael iddynt (e.e. Porth Termau ac adnoddau pwnc-benodol).
8. Pwysleisio gwerth y Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd drwy annog partneriaethau rhwng ysgolion a gweithfeydd lleol ar Ynys Môn (e.e. pobl ifanc yn bencampwyr iaith mewn busnesau lleol).
9. Cyfeirio busnesau at wasanaethau sydd ar gael iddynt gan randdeiliaid allweddol (e.e. gwasanaethau cyfieithu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol).
10. Creu cynlluniau pellach i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith gymunedol ymhlith twristiaid ac unigolion sydd wedi symud i'r ardal.

2. Rhestr Ffigurau a Thablau

Ffigurau

Ffigur 1.	Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl Rhyw	14
Ffigur 2.	Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl Grŵp Oedran	15
Ffigur 3.	Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl Amser yn byw neu ag ail gartref ar Ynys Môn	16
Ffigur 4.	Lle dysgodd yr ymatebydd siarad Cymraeg yn ôl Grŵp Oedran	17
Ffigur 5.	Lle dysgodd yr ymatebydd siarad Cymraeg yn ôl Amser yn byw ar Ynys Môn	18
Ffigur 6.	Lle dysgodd yr ymatebydd siarad Cymraeg yn ôl y Gallu i siarad Cymraeg	19
Ffigur 7.	Pa mor aml y siaredir Cymraeg yn ôl Grŵp Oedran	20
Ffigur 8.	Pa mor aml y siaredir Cymraeg yn ôl Amser yn byw neu ag ail gartref ar Ynys Môn	21
Ffigur 9.	Pa mor aml y siaredir Cymraeg yn ôl y Gweithle	22
Ffigur 10.	Pa mor aml y siaredir Cymraeg yn ôl y gallu i siarad Cymraeg	23
Ffigur 11.	Faint y siaredir Cymraeg yn ôl Lleoliad	24
Ffigur 12.	Lle Clywir y Gymraeg yn cael ei siarad yn ôl Lleoliad	25
Ffigur 13.	Barn am werth y Gymraeg	26
Ffigur 14.	Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: o fewn y Teulu	27
Ffigur 15.	Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: gyda Ffrindiau	28
Ffigur 16.	Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: yn yr Ysgol	29
Ffigur 17.	Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: gyda Chymdogion	30
Ffigur 18.	Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: wrth Siopa	31
Ffigur 19.	Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: Lleoliad Hamdden/ Chwaraeon	32
Ffigur 20.	Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: y Gweithle	33
Ffigur 21:	Crynodeb o sylwadau cyfranogwyr	38

Tablau

Tabl 1.	Tabl amllder nodweddion ymatebwyr yn ôl rhyw	12–13
Tabl 2.	Tabl amllder y gallu i siarad Cymraeg	14
Tabl 3.	Dadansoddiad amllder o ble dysgodd ymatebwyr siarad Cymraeg	16
Tabl 4.	Pa mor aml y siaredir Cymraeg	19

3. Cyflwyniad

- 3.1 Ym Mawrth 2022 comisiynwyd Hodges a Prys (Prifysgol Bangor) i gynnal astudiaeth ymchwil ar ran Cyngor Sir Ynys Môn a Menter Iaith Môn i archwilio defnydd o'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Diben yr astudiaeth ymchwil oedd ychwanegu at ddealltwriaeth y comisiynwyr o sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cymunedau ar Ynys Môn.
- 3.2 Cyllidwyd y prosiect ymchwil gan y Gronfa Adfywio Cymunedol fel rhan o gais ehangach gan Fenter Iaith Môn i astudio'r cyfleoedd a'r heriau amrywiol sy'n wynebu cymunedau Ynys Môn wrth geisio cynnal ac adfywio'r Gymraeg yn gymunedol. Clustnodwyd amserlen ymchwil o Ebrill i Dachwedd 2022 er mwyn cwblhau'r astudiaeth ymchwil, Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn.

Nod ac Amcanion yr Ymchwil

- 3.3 Nod yr astudiaeth ymchwil hon oedd astudio sefyllfa gyfredol yr iaith Gymraeg ar Ynys Môn gan ffocysu ar yr amcanion ymchwil isod:
 - i. Cynnig dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn ôl defnydd iaith, y gweithgareddau cymunedol sydd ar gael drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith
 - ii. Cydnabod a gwahaniaethu rhwng y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y cymunedau ymchwil
 - iii. Deall unrhyw rwystrau posib sy'n atal defnydd o'r iaith o fewn y cymunedau ymchwil
 - iv. Rhannu arfer da a chynnig argymhellion allweddol i Fforwm Iaith Ynys Môn a'r holl bartneriaid megis Menter Iaith Môn
- 3.4 Ynghyd â'r amcanion uchod, ystyriwyd y cwestiynau ymchwil isod hefyd:
 - i. Oes yna gyfleoedd i leoliadau neu grwpiau cymunedol weithio fel mentoriaid cymunedol iaith Gymraeg i leoliadau neu grwpiau cymunedol eraill?
 - ii. Ydy'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned yn ddigon hygyrch ac oes gan bawb fynediad atynt?
 - iii. Oes yna unigolion o gefndiroedd penodol sydd heb fynediad i weithgareddau cymunedol cyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog?

Cynnal ymchwil ym maes cynllunio ieithyddol

- 3.5 Mae cynllunio ieithyddol yn faes cynyddol bwysig o fewn cyd-destunau amlieithog amrywiol (Prys a Hodges, 2021). Gallwn ddiffinio'r maes fel ymgais fwriadol i ddylanwadu ar ddefnydd iaith unigolion a chymunedau (Cooper 1989). Dengys ymchwil bod cynllunio ieithyddol yn ymwneud â newid ymddygiad ieithyddol neu atal newid ieithyddol rhag digwydd yn ddiabynnol ar y cyd-destun arbennig (Kaplan & Baldauf 1997). Yn ogystal, gellir dadlau fod cynllunio ieithyddol yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â pha iaith sy'n cael ei defnyddio, ymhle a gyda phwy (Fishman, 1965). Mae'r cwestiynau hyn yn parhau'n hollbwysig wrth archwilio defnydd cymunedol o'r Gymraeg ar Ynys Môn sef bwriad yr astudiaeth ymchwil hon.

- 3.6 Mae'n bosib disgrifio'r gymuned fel un o'r sfferau defnydd iaith mwyaf allweddol ym maes cynllunio ieithyddol (ynghyd â'r teulu, addysg a'r gweithle). Gellir dadlau bod yn rhaid i iaith leiafrifol, neu iaith lai ei defnydd, gael ei defnyddio ar lefel gymunedol os yw am orosi (Fishman, 1991). Er bod y gymuned yn sffêr defnydd iaith ynddi ei hun, mae'n bwysig cydnabod bod nifer o sfferau iaith allweddol eraill yn dylanwadu ar ddefnydd iaith o fewn y sffêr hon. O ganlyniad, gellir trafod y gymuned fel 'croesffordd cynllunio ieithyddol' (Hodges a Prys, 2019:1) gan ei bod yn sffêr sy'n cwmpasu nifer o ddylanwadau eang o du'r teulu, addysg a'r gweithle. Dyna sy'n amlygu cymhlethdod a natur aml-haenog y gymuned fel maes cynllunio ieithyddol.
- 3.7 Mae yna sawl her wrth gynnal ymchwil ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol. Mae'r heriau hyn yn deillio o'r ffaith y gall nifer o ffactorau amrywiol dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol unigolion a chymunedau iaith, fel ei gilydd. Wrth ymgymryd â'r astudiaeth ymchwil hon, roedd yn bwysig ystyried cyd-destun cymdeithasol a deddfwriaethol (ffactorau strwythurol) defnydd iaith, fel y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cyd-destunau amrywiol. Ochr yn ochr â hynny, mae hefyd angen ystyried ffactorau unigolyddol sy'n gysylltiedig â'r siaradwyr eu hunain, fel rhuglder, hyder, agweddau a'r awydd i ddefnyddio'r iaith. Gellir dadlau felly ei bod yn anodd datgysylltu'r ffactorau hyn oddi wrth ei gilydd. Er hynny, mae'n bwysig cydnabod holl amrediad y ffactorau hyn wrth astudio'r defnydd cymunedol o iaith.

4. Methodoleg

- 4.1 Defnyddiwyd dulliau ymchwil cymysg i gasglu data ar gyfer yr astudiaeth ymchwil hon, sef arolwg ar-lein a grwpiau ffocws. Caniataodd y dulliau cymysg hyn i'r tîm ymchwil gasglu data ansoddol a meintiol cyfoethog am ddefnydd iaith ar Ynys Môn, gan alluogi unigolion ledled yr ynys i adrodd ar eu defnydd iaith yn eu bywydau bob dydd.

Arolwg ar-lein

- 4.2 Lluniwyd arolwg ar-lein er mwyn casglu data ynghylch y cyfleoedd a oedd gan drigolion Ynys Môn i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws yr ynys. Casglwyd data ar ffurf holiadur ar-lein a oedd ar agor i holl drigolion Môn dros 16 mlwydd oed¹. Fe uwchlwythwyd yr holiadur ar-lein i blatfformau digidol amrywiol (e.e. Facebook a Twitter) er mwyn i ymatebwyr lenwi'r holiadur ac roedd yr holiadur ar agor am gyfnod o dair wythnos. Dadansoddwyd 514 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol i gynnig trosolwg o batrymau defnydd iaith ym mywydau pob dydd trigolion Ynys Môn. Penderfynwyd cynnig trosolwg meintiol, cyffredinol fel cam cyntaf yr ymchwil cyn symud ymlaen i gasglu data ansoddol, penodol o fewn y grwpiau ffocws sef ail gam casglu data'r astudiaeth ymchwil.
- 4.3 Poblogaeth darged yr arolwg ar-lein oedd trigolion Ynys Môn dros 16 oed. Roedd y sampl hefyd yn cynnwys unigolion oedd ag ail gartref ar yr ynys. Gad nad oedd ffrâm samplu barod ar gael ar gyfer yr ymchwil oedd yn cynnwys trigolion Ynys Môn ac unigolion a oedd yn berchen ar ail gartrefi ar yr ynys, defnyddiwyd dull samplu anghynrychioladol i gasglu data'r arolwg. Yn benodol, defnyddiwyd dull samplu gwirfoddolwyr lle gwirfoddolodd y gynulleidfa darged i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein. Postiwyd yr arolwg ar-lein ar ffrydiau gwefannau cymdeithasol Cyngor Ynys Môn a Menter Iaith Môn (Facebook a Twitter yn benodol) ac fe rannwyd dolen yr arolwg (fersiwn cyfrwng Cymraeg a fersiwn Saesneg) ymhlith nifer o sefydliadau ac asiantaethau cymunedol yr ynys. Roedd yr arolwg ar-lein ar y gwefannau yma am gyfnod o dair wythnos rhwng yr 19eg o Fai a'r 9fed o Fehefin. Fe ail-anfonwyd hysbysebion ynghylch yr arolwg yn gyson er mwyn ceisio denu cynifer o ymatebwyr â phosib². Fel y nodwyd uchod, dadansoddwyd 514 o ymatebion gan drigolion Ynys Môn i'r arolwg ar-lein.

Grwpiau ffocws

- 4.4 Cynhaliwyd cyfanswm o naw grŵp ffocws gydag unigolion o fewn tair cymuned ddaearyddol ar Ynys Môn, sef cymunedau Amlwch, Caergybi a Llangefni³. Dewiswyd y cymunedau hyn mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ynys Môn a Menter Iaith Môn, yn seiliedig ar eu cyfansoddiad ieithyddol. Gan fod Ynys Môn yn ardal wledig, penderfynwyd cynnwys cyfranogwyr o bentrefi cyfagos yn sampl y grwpiau ffocws hyn gan fod y tair cymuned yn fannau siopa a chyrchu gwasanaethau pwysig i'r pentrefi cyfagos. O fewn pob cymuned unigol, cynhaliwyd tri grŵp ffocws gyda'r grwpiau canlynol:

¹ Gweler Atodiad 1 a 2 : Holiadur Ar-lein Ynys Môn (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)

² Gweler Atodiadau 6 a 7 am enghreifftiau o hysbysebion recriwtio ymatebwyr ar gyfer yr holiadur ar-lein

³ Gweler Atodiadau 3-5 sef atodlenni cyfworld grwpiau ffocws yr astudiaeth ymchwil

- Pobl ifanc 16-18 oed
 - Pobl fusnes
 - Unigolion oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Ynys Môn yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf
- 4.5 Dewiswyd y tri grŵp hyn mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ynys Môn a Menter Iaith Môn oherwydd eu bod yn cael eu hadnabod fel grwpiau o ddiddordeb arbennig er mwyn deall mwy am eu patrymau a'u hymddygiad ieithyddol. Defnyddiwyd techneg samplu fwriadus i ddethol y grwpiau penodol hyn i gymryd rhan yn yr astudiaeth, cyn defnyddio techneg samplu gyfleus i ganfod gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws penodol. Defnyddiwyd dulliau amrywiol i gysylltu ag unigolion i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws, gan gynnwys hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol, drwy gysylltu â grwpiau cymunedol lleol, a thrwy rwydweithiau sefydliadau eraill o fewn y gymuned leol. Roedd pawb a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn 16 mlwydd oed a throsodd. Darparwyd llythyr gwybodaeth a thaflen gydsynio i bob cyfranogwr, gan esbonio natur eu cyfraniad yn yr astudiaeth a bod ganddynt yr hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg heb roi rheswm i'r tîm ymchwil.
- 4.6 Nod yr ymchwil oedd cynnwys rhwng chwech i wyth unigolyn ym mhob grŵp ffocws. Fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys llai na 6 unigolyn. Roedd y grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn yn grwpiau anodd cael gafael arnynt ac oherwydd hynny nid oedd y grwpiau hynny yn cynnwys yr un nifer o unigolion â'r grwpiau yng nghategoriâu eraill yr ymchwil. Mae'n bosib bod cyfnod casglu data ymchwil dros yr haf hefyd yn gyfnod anodd gan fod unigolion ar wyliau.

5. Moeseg Ymchwil

- 5.1 Cyflwynwyd cais moeseg i Bwyllgor Moeseg Prifysgol Bangor a amlinellodd holl gamau allweddol y broses ymchwil. Dyfarnwyd caniatâd gan y Pwyllgor Moeseg i gasglu data arolwg ar-lein ac o'r grwpiau ffocws fel rhan o astudiaeth ymchwil Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn. Esboniwyd pwrpas a dibenion yr astudiaeth ymchwil gan ddarparu gwybodaeth i ymatebwyr yr arolwg ar-lein a chyfranogwyr y grwpiau ffocws oedd yn esbonio amcanion yr ymchwil, cyfrinachedd ac anhysbysrwydd, a sut y defnyddiwyd ac y storiwyd y data ymchwil a gasglwyd fel rhan o'r astudiaeth.

6. Canlyniadau'r Astudiaeth Ymchwil

- 6.1 Yn yr adran hon, cyflwynir y canlyniadau ymchwil a gasglwyd yn ystod astudiaeth ymchwil Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn. Yn gyntaf, adroddir canlyniadau'r arolwg ar-lein sydd yn cynnwys data meintiol a data ansoddol. Ac yna, adroddir ar themâu allweddol a gododd o'r grwpiau ffocws gyda'r grwpiau penodol o unigolion o dan sylw.

Data meintiol yr Arolwg Ar-lein

- 6.2 Llanwodd cyfanswm o 551 o ymatebwyr yr arolwg. Cafodd data gan 37 ymatebydd (6.72 y cant) eu heithrio o'r dadansoddiad data terfynol gan nad oedd 34 ymatebydd yn byw ar Ynys Môn, nac ag ail gartref yno, a thri ymatebydd o dan 16 oed. Y gyfradd ymateb derfynol ar gyfer yr arolwg hwn oedd 93.28 y cant sef 514 o ymatebwyr. Dadansoddwyd data meintiol o'r arolygon gan ddefnyddio data disgrifiadol (dadansoddiad amllder a chroes dabliadau)⁴. Cyflwynir y canlyniadau isod:

Nodweddion ymatebwyr

Tabl 1. Tabl amllder nodweddion ymatebwyr yn ôl rhyw

Newidyn	Cyfanswm n (%)	Benyw n (%)	Rhyw	
			Gwryw n (%)	Yn dewis peidio â dweud n (%)
Rhyw	514 (100)	375 (73.0)	132 (25.7)	7 (1.4)
laith ymateb yr holiadur				
Cymraeg	179 (34.8)	128 (34.1)	49 (37.1)	2 (28.6)
Saesneg	335 (65.2)	247 (65.9)	83 (62.9)	5 (71.4)
Môn prif gartref				
Ie	503 (97.9)	365 (97.3)	131 (99.2)	7 (100.0)
Na	11 (2.1)	10 (2.7)	1 (0.8)	0 (0.0)
Grŵp oedran (blynyddoedd)				
16-24	26 (5.1)	19 (5.1)	7 (5.3)	0 (0.0)
25-34	61 (11.9)	48 (12.8)	13 (9.8)	0 (0.0)
35-44	90 (17.5)	70 (18.7)	19 (14.4)	1 (14.3)
45-54	113 (22.0)	95 (25.3)	17 (12.9)	1 (14.3)
55-64	131 (25.5)	91 (24.3)	38 (28.8)	2 (28.6)
65-74	77 (15.0)	42 (12.5)	28 (21.2)	2 (28.6)

⁴ Mae'n bwysig nodi wrth gyflwyno'r canlyniadau meintiol, ei bod yn bosib na fydd cyfanswm pob canran o fewn y tablau yn 100% gan fod rhai o'r canrannau wedi eu talgrynnu

75+	16 (3.1)	5 (1.3)	10 (7.6)	1 (14.3)
Â phlant o dan 18 oed				
Oes	182 (35.4)	146 (38.9)	35 (26.5)	1 (14.3)
Nac oes	332 (64.6)	229 (61.1)	97 (73.5)	6 (85.7)
Hunaniaeth Genedlaethol				
Cymro / Cymraes	361 (70.2)	265 (72.0)	94 (72.9)	2 (33.3)
Sais / Saesnes	32 (7.2)	28 (7.6)	9 (7.0)	0 (0.0)
Albanwr / Albanes	5 (1.0)	4 (1.1)	1 (0.8)	0 (0.0)
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	1 (0.2)	1 (0.3)	0 (0.0)	0 (0.0)
Prydeiniwr / Prydeinwraig	99 (19.3)	70 (19.0)	25 (19.4)	4 (66.7)
Grŵp ethnig				
Grwpiau cymysg neu amlethnig	6 (1.2)	5 (1.3)	1 (0.8)	0 (0.0)
Gwyn	505 (98.2)	369 (98.7)	131 (99.2)	5 (83.3)
Grŵp ethnig arall	1 (0.2)	0 (0.0)	0 (0.0)	1 (16.7)
Ers pryd ydych chi'n byw neu'n berchen arail gartref ar Ynys Môn				
Yn byw ar Ynys Môn erioed	237 (46.1)	181 (48.3)	54 (40.9)	2 (28.6)
3 blynedd neu lai	36 (7.0)	25 (6.7)	11 (8.3)	0 (0.0)
4-9 mlynedd	51 (9.9)	35 (9.3)	16 (12.1)	0 (0.0)
10-19 mlynedd	57 (11.1)	40 (10.7)	16 (12.1)	1 (14.3)
20 mlynedd neu fwy	133 (25.9)	94 (25.1)	36 (26.5)	4 (57.1)
Sefyllfa bersonol				
Cyflogedig	295 (57.4)	231 (61.6)	63 (47.7)	1 (14.3)
Hunangyflogedig	45 (8.8)	22 (7.2)	17 (12.9)	1 (14.3)
Ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth	5 (1.0)	5 (1.3)	0 (0.0)	0 (0.0)
Wedi ymddeol	113 (22.0)	73 (19.5)	37 (28.0)	3 (42.9)
Anabl neu'n sâl am gyfnod hir	12 (2.3)	9 (2.4)	2 (1.5)	1 (14.3)
Astudio	17 (3.3)	12 (3.2)	5 (3.8)	0 (0.0)
Gofalu am y cartref neu am y teulu	14 (2.7)	12 (3.2)	1 (0.8)	1 (14.3)
Arall	13 (2.5)	6 (1.6)	7 (5.3)	0 (0.0)
Y Gweithle				
Gweithio gartref	65 (28.9)	98 (27.0)	42 (32.6)	4 (57.1)
Gweithio o weithle yn unig	178 (35.7)	41 (11.3)	23 (17.8)	1 (14.3)
Gweithio o gartref ac mewn gweithle	112 (22.4)	144 (39.7)	32 (24.8)	2 (28.6)
Ddim yn berthnasol	144 (28.9)	80 (22.0)	32 (24.8)	0 (0.0)
Cymhwyster gradd neu uwch				
Oes	302 (58.8)	213 (85.6)	84 (63.6)	5 (71.4)
Nac oes	212 (41.2)	162 (43.2)	48 (36.4)	2 (28.6)


6.3 Mae Tabl 1 yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi ateb yr arolwg yn Saesneg (65.2 y cant), a bod eu prif gartref ar Ynys Môn (97.9 y cant). Roedd 73.0 y cant yn fenywod. Tra bod 40.6 y cant o'r ymatebwyr wedi byw ar Ynys Môn gydol eu hoes a 25.9 y cant yn byw yno ers mwy nag 20 mlynedd, dim ond 7.0 y cant o'r ymatebwyr oedd yn byw ar yr ynys ers llai na thair blynedd.

6.4 Cynrychiolwyd pob grŵp oedran yn y sampl, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grwpiau oedran 35-44 oed (17.5 y cant), 45-54 oed (22.0 y cant) a 44-65 oed (25.5 y cant). Roedd y mwyafrif o'r sampl yn Wyn (98.2 y cant), gyda 70.2 y cant o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn Gymry a 19.9 y cant eu bod yn Brydeinwyr, a 58.5 y cant wedi cael addysg at lefel gradd. Roedd y sampl hwn yn cynnwys yn bennaf ymatebwyr a oedd naill ai'n gyflogedig (57.4 y cant mewn cyflogaeth ac 8.8 y cant yn hunangyflogedig) neu wedi ymddeol (22.0 y cant). Nid oedd unrhyw brif fan gwaith ar gyfer yr ymatebwyr oedd mewn cyflogaeth, gyda 28.9 y cant yn gweithio gartref, 35.7 y cant yn gweithio mewn gweithle a 22.4 y cant yn gweithio gartref ac yn y gweithle.

Y gallu i siarad Cymraeg

Tabl 2. Tabl amllder y gallu i siarad Cymraeg


Newidyn	n	(%)
Siaradwr Cymraeg rhugl	316	61.5
Yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg	68	13.2
Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig	51	9.9
Yn gallu dweud ychydig o eiriau yn unig	65	12.6
Ddim yn siarad Cymraeg	14	2.7



Ffigur 1. Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl Rhyw


6.5 Mae Tabl 2 yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn medru'r Gymraeg i ryw raddau, gyda 61.5 y cant o'r sampl yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Dim ond 2.7 y cant o'r sampl cyfan oedd yn methu â siarad Cymraeg o gwbl. Roedd canran uwch o fenywod (62.7 y cant) na gwrywod (59.8 y

cant) yn 'siaradwyr Cymraeg rhugl'; i'r sawl a oedd yn well ganddynt beidio nodi eu rhywedd, nid oedd niferoedd bach y sampl yn caniatáu i'r ystadegau fod yn arwyddocaol (gweler Ffigur 1). Yn gyffredinol, roedd merched yn fwy tebygol o nodi rhuglder uwch yn y Gymraeg na dynion. Er enghraifft, roedd 15.5 y cant o ferched yn nodi eu bod yn siarad 'cryn dipyn o Gymraeg', o'i gymharu â 7.6 y cant o'r dynion. Yn ogystal roedd dwywaith cymaint o ddynion ag o ferched wedi nodi mai 'ychydig o eiriau yn unig' o Gymraeg oedd ganddynt.



Ffigur 2. Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl Grŵp Oedran

6.6 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr ar draws pob grŵp oedran yn 'siaradwyr Cymraeg rhugl' er bod y canran ar draws y grwpiau oedran yn amrywio (gweler Ffigur 2). Yn gyffredinol, gwelwyd bod y mwyafrif o 'siaradwyr Cymraeg rhugl' yn perthyn i grwpiau oedran 25-34 (73.8 y cant) a 75+ (68.8 y cant). Y ddau grŵp gyda'r canran lleiaf o 'siaradwyr Cymraeg rhugl' oedd 55-64 (55 y cant) a 65-74 (55.8 y cant) mlwydd oed. Nodir nad oedd unrhyw ymatebwyr yn y grŵp oedran ifancaf (16-24 oed) a'r grŵp oedran hynaf (75+ oed) yn methu â siarad Cymraeg. Roedd cyfanswm o 92.3 y cant o bobl ifanc 16-24 oed naill ai yn 'siaradwyr Cymraeg rhugl' (65.4 y cant) neu'n siarad 'cryn dipyn o Gymraeg' (26.9 y cant).



Ffigur 3. Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl Amser yn byw neu ag ail gartref ar Ynys Môn

6.7 Roedd canran uchel iawn (83.1 y cant) o'r ymatebwyr a oedd wedi byw ar Ynys Môn erioed yn siarad Cymraeg yn rhugl (gweler Ffigur 3). At hyn, mae'r data yn awgrymu, po hiraf mae unigolyn yn byw ar Ynys Môn mwyaf rhugl maen nhw'n debygol o fod (e.e. roedd 55.6 y cant o'r unigolion oedd wedi byw ar Ynys Môn ers dros 20 blynedd yn 'siaradwyr Cymraeg rhugl' o'i gymharu â dim ond 23.5 y cant a 25 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn byw neu ag ail gartref ar Ynys Môn ers 4-9 mlynedd neu lai a 3 blynedd neu lai, yn y drefn honno).


Dysgu Cymraeg

Tabl 3. Dadansoddiad amlder o ble y dysgodd ymatebwyr siarad Cymraeg

Newidyn	n	(%)
Yn y cartref	303	(60.6)
Ysgol/ Coleg/ Prifysgol	77	(15.4)
Yn y gwaith	26	(5.2)
Cymraeg i oedolion	53	(10.6)
Siarad â phobl sy'n byw yn agos	41	(8.2)


6.8 Cafodd ymatebwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg o gwbl eu heithrio o'r dadansoddiad. Dangosodd dadansoddiad amlder (Tabl 3) fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi dysgu siarad Cymraeg gartref (60.6 y cant), gyda lleiafrif bach yn unig (5.2 y cant) wedi dysgu siarad Cymraeg yn y gwaith. Roedd y rhelyw wedi dysgu siarad Cymraeg naill ai mewn lleoliad "ffurfiol", h.y. Ysgol/Coleg/Prifysgol (15.4 y cant) a Chymraeg i Oedolion (10.6 y cant), neu fel arall mewn "lleoliad anffurfiol", h.y., siarad â phobl oedd yn byw yn agos iddynt (8.2 y cant) neu yn y gwaith

(5.2 y cant). Amlygai hyn fod bron i 40 y cant o ymatebwyr yr astudiaeth wedi dysgu Cymraeg tu allan i'r cartref.




Ffigur 4. Lle dysgodd yr ymatebydd siarad Cymraeg yn ôl Grŵp Oedran

6.9 Datgelodd dadansoddiadau pellach gan ddefnyddio croes dabladau bod canran uwch o ymatebwyr ifanc wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol/ coleg neu'r brifysgol gyda 34.6 y cant o ymatebwyr 16-24 oed wedi dysgu'r iaith o fewn y sffêr hon. Roedd canran uwch o'r ymatebwyr yn y grwpiau oedran 55-64 oed a 65-74 oed wedi dysgu Cymraeg trwy gyrsiau Cymraeg i Oedolion nag yn y grwpiau oedran eraill (gweler Ffigur 4).



Ffigur 5. Lle dysgodd yr ymatebydd siarad Cymraeg yn ôl Amser yn byw ar Ynys Môn

6.10 Roedd 78 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi byw ar Ynys Môn ar hyd eu hoes, neu wedi bod ag ail gartref ar Ynys Môn erioed, wedi dysgu Cymraeg gartref (gweler Ffigur 5). Mewn cyferbyniad, po leiaf o amser yr oedd ymatebwyr wedi byw ar Ynys Môn, mwyaf tebygol oeddynt o fod wedi dysgu Cymraeg trwy gyrsiau Cymraeg i Oedolion.



Ffigur 6. Lle dysgodd yr ymatebydd siarad Cymraeg yn ôl y gallu i siarad Cymraeg


6.11 Roedd y rhan fwyaf o ‘siaradwyr Cymraeg rhugl’ (87 y cant) wedi dysgu siarad Cymraeg yn y cartref gyda dim ond 7.9 y cant o’r garfan honno wedi dysgu’r iaith yn yr ysgol/coleg neu’r brifysgol (gweler Ffigur 6). Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr a oedd yn gallu ‘siarad cryn dipyn o Gymraeg’ neu’n siarad ‘ychydig o Gymraeg yn unig’ wedi dysgu Cymraeg mewn lleoliadau dysgu iaith ffurfiol, naill ai yn yr ysgol/ coleg neu’r brifysgol neu ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion.

Amllder defnydd o’r Gymraeg

Tabl 4. Pa mor aml y siaredir Cymraeg


Newidyn	n	(%)
Dyddiol	344	(68.8)
Wythnosol	49	(9.8)
Llai aml	77	(15.4)
Byth	30	(6.0)

6.12 Eithriwyd ymatebwyr o’r dadansoddiad hwn os nad oeddynt yn siarad Cymraeg o gwbl. Mae Tabl 4 yn dangos bod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr oedd yn gallu siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd (68.8 y cant). Fodd bynnag, dywedodd canran fach o ymatebwyr nad oeddent byth yn siarad Cymraeg (6.0 y cant).




Ffigur 7. Pa mor aml y siaredir Cymraeg yn ôl Grŵp Oedran

6.13 Dengys y canlyniadau yn Ffigur 7 mai ymatebwyr yn y grŵp oedran 35-44 oed oedd yn siarad Cymraeg yn ddyddiol fwyaf (83 y cant) ac ymatebwyr yn y grŵp oedran 55-64 oed yn ei siarad yn ddyddiol leiaf (60.6 y cant). Roedd y defnydd dyddiol o'r Gymraeg hefyd yn uchel ymhlith grŵp oedran ifancaf yr astudiaeth, sef ymatebwyr 16- 24 mlwydd oed.




Ffigur 8. Pa mor aml y siaredir Cymraeg yn ôl Amser yn byw ar Ynys Môn neu ag ail gartref ar Ynys Môn

6.14 Roedd 86.9 y cant o'r ymatebwyr oedd bob amser wedi byw, neu ag ail gartref, ar Ynys Môn yn siarad Cymraeg bob dydd (gweler Ffigur 8). Mewn cyferbyniad, yr ymatebwyr oedd yn byw ar yr Ynys ers llai na thair blynedd oedd y grŵp lleiaf tebygol o fod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol (37.1 y cant). Po hiraf yr oedd ymatebwyr wedi byw ar Ynys Môn, mwyaf tebygol oeddynt o siarad Cymraeg bob dydd.



Ffigur 9. Pa mor aml y siaredir Cymraeg yn ôl Y Gweithle


6.15 Yn ôl y data a ddangosir yn Ffigur 9 roedd yr ymatebwyr a oedd yn gweithio gartref yn llai tebygol o siarad Cymraeg yn ddyddiol (57.1 y cant) o'u cymharu â'r ymatebwyr eraill oedd yn gweithio mewn gweithle (75.3 y cant) neu oedd yn gweithio o gartref/mewn gweithle (75.5 y cant).



Ffigur 10. Pa mor aml y siaredir Cymraeg yn ôl y gallu i siarad Cymraeg

6.16 Mae'r gallu i siarad Cymraeg a pha mor aml y siaredir Cymraeg yn cael eu dangos yn y canlyniadau a gyflwynir yn Ffigur 10. Dengys y data po fwyaf rhugl oedd siaradwyr, mwyaf tebygol oeddent o nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Roedd 94.9 y cant o 'siaradwyr Cymraeg rhugl' yn siarad Cymraeg bob dydd o'i gymharu â dim ond 9.2 y cant o'r ymatebwyr oedd yn siarad 'ychydig o eiriau yn unig'. Roedd ymatebwyr oedd 'yn gallu dweud ychydig o eiriau Cymraeg yn unig' neu yn 'siarad ychydig o Gymraeg yn unig' yn tueddu naill ai i beidio â siarad Cymraeg o gwbl (30.8 y cant a 17.6 y cant yn y drefn honno) neu i siarad Cymraeg yn llai nag wythnosol (49.2 y cant a 35.3 y cant yn y drefn honno). Ymysg y rhai hynny oedd yn siarad 'cryn dipyn o Gymraeg' roedd 42.6 y cant yn siarad yr iaith yn ddyddiol a 30.9 y cant yn wythnosol..


Lleoliad y defnydd o Gymraeg



Ffigur 11 Faint o Gymraeg a siaredir yn ôl Lleoliad

6.17 Mae archwiliad o Ffigur 11 yn dangos mai'r tri man mwyaf cyffredin lle siaredir Cymraeg llawer iawn yw gyda'r teulu (49.4 y cant), yn yr Ysgol/ Coleg/ Prifysgol (43.7 y cant) a gyda ffrindiau (43.3 y cant). I'r gwrthwyneb, y tri man mwyaf cyffredin lle na siaredir Cymraeg o gwbl yw mewn addoldy (46.1 y cant), wrth wirfoddoli (44.1 y cant) ac mewn clwb hamdden neu chwaraeon (35.8 y cant).⁵


⁵ Mae'r clybiau hamdden yn cynrychioli ystod o ddarparwyr amrywiol o fewn sectorau gwahanol.



Ffigur 12. Lle clywir y Gymraeg yn cael ei siarad yn ôl Lleoliad

6.18 Mae archwiliad o Ffigur 12 yn dangos mai'r tri lle mwyaf cyffredin lle mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed llawer yw gyda'r teulu (49.6 y cant), yn y gwaith (43.9 y cant) a gyda ffrindiau (40.5 y cant). I'r gwrthwyneb, y tri man mwyaf cyffredin lle na chlywir unrhyw Gymraeg yw mewn addoldy (34.7 y cant), wrth wirfoddoli (32.1 y cant) a gyda'r teulu (19.9 y cant).

Barn am werth y Gymraeg




Ffigur 13. Barn am werth y Gymraeg

- 6.19 Mae siarad Cymraeg yn cael ei weld yn elfen bwysig o hunaniaeth unigolyn gan 65 y cant o'r sampl (gweler Ffigur 13). Ymhellach, mae hyn yn arbennig o bwysig i ymatebwyr sy'n nodi eu hunaniaeth genedlaethol fel Cymry, gyda 85.2 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf ac 8.4 y cant yn 'tueddu i gytuno' â'r gosodiad hwn.
- 6.20 Dengys archwiliad pellach o'r canlyniadau a gyflwynir yn Ffigur 13 fod bron i 75 y cant o'r sampl naill ai'n 'cytuno'n gryf' (43.6 y cant) neu'n 'tueddu i gytuno' (30.9 y cant) â'r datganiad eu bod yn cael cyfleoedd i siarad Cymraeg. Fodd bynnag, dim ond 41.8 y cant o'r ymatebwyr oedd yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'tueddu i gytuno' y byddent yn mynd allan o'u ffordd i ofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Yn olaf, roedd 53.8 y cant o'r ymatebwyr naill ai'n 'cytuno'n gryf' neu'n 'tueddu i gytuno' y byddent yn mynd allan o'u ffordd i brynu nwyddau brand Cymreig, tra nad oedd 33.1 y cant o'r ymatebwyr yn 'cytuno nac yn anghytuno' â'r datganiad hwn.

Defnydd siaradwyr Cymraeg o'r Gymraeg yn ôl lleoliad


- 6.21 Mae'r adran nesaf yn cynnwys dadansoddiad o barthau defnydd iaith siaradwyr Cymraeg. Mae'r data yn cynnwys defnydd siaradwyr Cymraeg gyda lefelau rhuglder amrywiol, gan gynnwys 'siaradwyr Cymraeg rhugl', 'yn siarad cryn dipyn o Gymraeg', 'yn siarad ychydig o Gymraeg yn unig', 'yn gallu dweud ychydig o eiriau yn unig'. Noder nad yw'r adran yn cynnwys ymatebwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl.

6.22 Bydd yr adran nesaf yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd o'r Gymraeg yn y parthau canlynol: teulu, ffrindiau, ysgol, cymdogion, siopau, hamdden a chwaraeon, a'r gweithle.




Ffigur 14. Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: o fewn y Teulu

6.23 Yn ôl y data a gyflwynir yn Ffigur 14 mae 44.4 y cant o 'siaradwyr Cymraeg rhugl' yn defnyddio'r iaith 'llawer iawn' yn y teulu, 4.4 y cant yn ei defnyddio 'cryn dipyn' a 35.6 y cant yn ei ddefnyddio 'eithaf tipyn'. Nid yw ymatebwyr llai rhugl yn defnyddio'r Gymraeg yn aml o fewn y teulu.




Ffigur 15. Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: gyda Ffrindiau

6.24 Yn ôl yr ymatebwyr a oedd yn 'siarad Cymraeg yn rhugl', roedd 37.8 y cant yn siarad 'llawer iawn' o Gymraeg gyda'u ffrindiau. Nodwyd hefyd bod 38.9 y cant o 'siaradwyr Cymraeg rhugl' yn siarad 'eithaf tipyn' o Gymraeg gyda'u ffrindiau. Yn achos yr ymatebwyr a nododd eu bod yn siarad 'cryn dipyn o Gymraeg', prin iawn oedd eu defnydd o Gymraeg gyda ffrindiau, gyda 38.7 y cant yn dweud nad oeddent yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau o gwbl, a 48.4 y cant yn nodi mai 'ychydig bach' o Gymraeg yr oeddent yn ei siarad gyda'u ffrindiau.




Ffigur 16. Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: yn yr Ysgol

- 6.25 Dylid nodi wrth archwilio'r data yn Ffigur 16 eu bod yn cynnwys gwybodaeth gan yr holl amrediad oed, ac felly yn cynnwys data cyfredol a hanesyddol o ddefnydd iaith yn yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r data o reidrwydd yn arddangos defnydd cyfredol o'r Gymraeg yn ysgolion Ynys Môn. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod ymatebwyr wedi mynychu'r ysgol ym Môn, tynnwyd allan ymatebwyr nad oeddent 'wedi byw ar Ynys Môn erioed'.
- 6.26 Mae data Ffigur 16 yn dangos mai 'siaradwyr Cymraeg rhugl' oedd yr ymatebwyr mwyaf tebygol o nodi eu bod yn/wedi defnyddio 'llawer iawn' o Gymraeg yn yr ysgol (71 y cant). Mae'r data a gasglwyd yn awgrymu bod ymatebwyr yr arolwg a oedd yn llai rhugl yn defnyddio llai o Gymraeg yn yr ysgol. Er enghraifft, yn ôl yr ymatebwyr a oedd yn nodi eu bod yn gallu siarad 'cryn dipyn' o Gymraeg (sef yr ail grŵp mwyaf rhugl), roedd 23.8 y cant yn nodi nad oeddynt yn/wedi defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, gyda 28.6 y cant yn nodi mai 'ychydig bach' o Gymraeg yr oeddent yn ei ddefnyddio yn y sffêr hon.




Ffigur 17. Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: gyda Chymdogion

6.27 Mae archwiliad o'r data yn Ffigur 17 yn dangos bod 34.4 o 'siaradwyr Cymraeg rhugl' yn defnyddio'r iaith gyda'u cymdogion 'llawer iawn', 3.3 y cant yn ei defnyddio 'cryn dipyn', a 37.8 y cant yn ei defnyddio 'eithaf tipyn'. Mae hyn yn dangos bod yna gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chymdogion, ond bod dwyieithrwydd hefyd yn elfen o ddefnydd iaith o fewn y sffêr hon. Yn achos yr ymatebwyr a nododd eu bod 'yn siarad cryn dipyn o Gymraeg', prin iawn oedd eu defnydd o'r Gymraeg gyda chymdogion, gyda 51.6 y cant yn dweud nad oeddent yn siarad Cymraeg gyda'u cymdogion o gwbl, a 41.9 y cant yn nodi mai dim ond 'ychydig bach' yr oeddent yn ei siarad.




Ffigur 18. Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: wrth Siopa

6.28 Yr hyn sy'n sefyll allan yn y data a gyflwynir yn Ffigur 18 yw mai cymysg yw defnydd iaith llawer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siopau Môn, gyda 30 y cant yn nodi eu bod yn defnyddio'r iaith 'llawer iawn', 10 y cant yn nodi eu bod yn ei defnyddio 'cryn dipyn', 33.33 y cant yn datgan mai 'eithaf tipyn' yw eu defnydd o'r Gymraeg, a'r rhelyw yn siarad 'ychydig bach' (14.4 y cant) neu ddim o gwbl (12.2 y cant). Ymhellach, nid oedd y mwyafrif helaeth a oedd 'yn siarad cryn dipyn o Gymraeg' yn ei defnyddio llawer o fewn y parth hwn.



Ffigur 19. Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: Lleoliad Hamdden/ Chwaraeon

6.29 Dengys y data yn Ffigur 19 bod 28.9 y cant o ‘siaradwyr Cymraeg rhugl’ yn defnyddio ‘llawer iawn’ o Gymraeg wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon, 10 y cant yn defnyddio ‘cryn dipyn’, a 28.9 y cant yn defnyddio ‘eithaf tipyn’ o Gymraeg wrth ymwneud â’r math hwn o weithgaredd. Awgryma hyn bod canran uchel o ‘siaradwyr Cymraeg rhugl’ yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon dwyieithog, gyda’r Gymraeg yn cael ei defnyddio i wahanol raddau o fewn y gweithgareddau hyn. Yn ôl ymatebwyr sy’n gallu siarad ‘cryn dipyn o Gymraeg’, adroddwyd nad oedd 71 y cant yn defnyddio’r Gymraeg o gwbl mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon, gyda 22.6 y cant yn datgan mai ‘ychydig bach’ o Gymraeg yr oeddent yn ei ddefnyddio yn y gweithgareddau hyn.



Ffigur 20. Rhuglder yn y Gymraeg yn ôl Lleoliad lle siaredir y Gymraeg: y Gweithle

6.30 Yn ôl yr ymatebwyr a oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg, roedd 37.8 y cant yn siarad 'llawer iawn' o Gymraeg yn y gweithle, 6.7 y cant yn siarad 'cryn dipyn', ac 28.9 y cant yn siarad 'eithaf tipyn' o Gymraeg (gweler Ffigur 20). At hyn, nododd bron i hanner yr ymatebwyr oedd yn gallu siarad 'cryn dipyn o Gymraeg' (48.5 y cant) nad oeddent yn siarad dim Cymraeg yn y gweithle.

Data ansoddol yr Arolwg Ar-lein

6.31 O fewn yr adran hon byddwn yn adrodd ar ddata ansoddol yr arolwg ar-lein gan bwysleisio mai canfyddiadau a safbwyntiau ymatebwyr sydd wedi eu cynnwys ynddi. Fel rhan o'r holiadur ar-lein, roedd yna dri chwestiwn ansoddol penodol oedd yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr leisio barn am heriau defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn a'r gweithgareddau yr hoffent eu gweld er mwyn hybu'r Gymraeg ar yr ynys. Defnyddiwyd pecyn meddalwedd gwyddorau cymdeithas Nvivo er mwyn creu themâu ymchwil allweddol o sylwadau ansoddol yr arolwg. Adroddir yr ymatebion ymchwil fesul y tri chwestiwn isod sy'n cyd-fynd â phrif nodau ac amcanion yr astudiaeth ymchwil. Gall y dystiolaeth i gefnogi'r themâu fod wedi ei chyrru mewn ymateb i unrhyw un o'r 3 chwestiwn ansoddol.

- Beth sy'n eich atal chi rhag defnyddio mwy o Gymraeg ar Ynys Môn?
- Beth yw'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ar Ynys Môn?
- Pa fath o raglenni neu weithgareddau hoffech chi eu gweld yn cael eu datblygu i hybu'r Gymraeg ar Fôn?

Beth sy'n eich atal chi rhag defnyddio mwy o Gymraeg ar Ynys Môn?

- 6.32 Yn ôl ymatebwyr yr holiadur ar-lein roedd nifer o ffactorau yn atal unigolion rhag defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn. Roedd y rhain yn cynnwys newid yng nghyfansoddiad ieithyddol yr ynys o'r Gymraeg i'r Saesneg a diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sectorau amrywiol. Nodwyd hefyd bod ansicrwydd ynglŷn â gallu ieithyddol trigolion Môn yn effeithio ar iaith gychwynnol sgysiau o ddydd i ddydd. Cafwyd sylwadau gan siaradwyr Cymraeg yr arolwg bod shiftt ieithyddol wedi digwydd ar Ynys Môn wrth i unigolion gychwyn mwy o sgysiau yn Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. Yn ogystal, cafwyd nifer o ymatebion ynghylch profiadau a heriau siaradwyr Cymraeg newydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn.

Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

- 6.33 Y thema yr adroddwyd amlaf arni yn nata'r arolwg oedd bod shiftt ieithyddol i'w weld ar yr ynys, a bod hynny yn atal unigolion rhag siarad Cymraeg ar Ynys Môn. Nodwyd bod y newid yng nghyfansoddiad ieithyddol yr ynys yn dylanwadu ar batrymau defnydd iaith gan unigolion yn gymunedol (cafwyd 162 o ymatebion arolwg yn trafod hyn). Yn ôl y sawl a holwyd felly roedd y newid ieithyddol hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Gwelwyd tystiolaeth o hynny gan siaradwyr Cymraeg o wahanol lefelau o ruglder. Fel dywed un ymatebydd, *"Cymaint o bobol ddim yn medru siarad yr iaith. Disgwyl i ni droi i'r Saesneg."*
- 6.34 Thema gysylltiedig â'r newid yng nghyfansoddiad ieithyddol yr ynys oedd bod hi'n anodd cychwyn bob sgwrs yn y Gymraeg am fod yna ansicrwydd am allu ieithyddol unigolion sy'n byw ar Ynys Môn. Fel y nodwyd mewn un enghraifft gan ymatebydd, *"(Dydych) byth yn siŵr pwy sydd yn medru siarad Cymraeg ac yn ei chael yn anodd am ryw reswm gwirion i ddechrau trafodaeth yn Gymraeg."*
- 6.35 Cafwyd tystiolaeth hefyd o'r arfer gan siaradwyr Cymraeg o newid i ddefnyddio'r Saesneg pan oedd unigolion di-Gymraeg yn bresennol. Yn ôl un ymatebydd arolwg, *"People who can't speak Welsh join clubs and the language automatically changes to English, even if only one or two English speakers are present."*
- 6.36 Roedd yna ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol ar Ynys Môn. Thema amlwg oedd yn atal ymatebwyr rhag defnyddio mwy o Gymraeg ar yr ynys oedd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyffredinol ac wrth gyrchu gwasanaethau, yn arbennig wrth ymwneud â siopau a busnesau lleol ac o fewn cyd-destunau ieuchyd (cafwyd 112 o ymatebion yn yr arolwg). Cafwyd nifer o ymatebion gan siaradwyr Cymraeg rhugl ynglŷn â'u profiadau o dderbyn gwasanaethau uniaith Saesneg mewn rhai siopau ac archfarchnadoedd ar Ynys Môn. Fel y nodwyd mewn un enghraifft, *"One example would be that when I go to one of the many supermarkets, post offices or other shops on Anglesey and speak Welsh, I am usually told by the person I am speaking to that they don't speak Welsh."*
- 6.37 Nododd un ymatebydd nad oedd ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg o fewn y sector breifat ar yr ynys a bod hynny'n effeithio ar y gwasanaethau oedd ar gael yn y Gymraeg o fewn busnesau. *"Lot o siopa' a caffis newydd yn berchen gan bobl ddi-Gymraeg a ddim yn gweld gwerth cael staff Cymraeg, neu os oes na staff Cymraeg 'sa ddim arweiniad o uwch i hybu defnydd."*
- 6.38 Ymhellach, nodwyd bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y sector cyhoeddus yn gallu bod yn ddibynnol ar iaith yr aelod o staff sy'n gweithio yno. Mae aelodau staff di-Gymraeg yn

golygu nad oes gwasanaeth yn y Gymraeg ar gael bob tro. Fel y nododd un ymatebydd wrth drafod gwasanaethau iechyd ar yr ynys, *"Rwy'n cychwyn bob sgwrs yn Gymraeg, ond rhan amlaf yr ymateb ydy, "sorry I don't speak Welsh" yn enwedig wrth ffonio meddygfeydd doctor fel rhan o'm gwaith."*

- 6.39 Tra bod y themâu uchod yn trafod dylanwad cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sffêr gyhoeddus a'r gymdeithas sifil, nodwyd hefyd bod diffyg trosglwyddo iaith o fewn y teulu yn ffactor gyda rhieni sydd yn medru'r iaith ddim bob tro yn ei throsglwyddo i'w plant (cafwyd 27 ymateb arolwg). Thema arall sydd yn her i'r Gymraeg ar Ynys Môn yw nad yw pawb sy'n medru'r iaith yn ei defnyddio (cafwyd 29 ymateb arolwg). Dyma rai sylwadau a ddaeth i'r amlwg o'r arolwg ar-lein. Nododd un ymatebydd, *"Un sialens yw perswadio'r Cymry Cymraeg i siarad Cymraeg hefo eu plant yn lle Saesneg."* Yn ôl ymatebydd arall, *"Pobl ifanc sydd yn Gymraeg iaith gyntaf yn mynnu siarad Saesneg gyda'i gilydd"*.

Rhwystrau i siaradwyr Cymraeg newydd

- 6.40 Cafwyd nifer o ymatebion yn trafod rhwystrau siaradwyr newydd wrth geisio defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn. I'r sawl nad yw'n rhugl yn y Gymraeg, mae ffactorau yn ymwneud â dysgu'r iaith yn gallu bod yn rhwystr sylweddol o safbwynt eu defnydd cymunedol o'r Gymraeg ar Ynys Môn (39 ymateb arolwg). Mae'r ffactorau yma yn cynnwys diffyg cyfleoedd i ddysgu'r iaith, canfyddiad bod y Gymraeg yn anodd ei dysgu a diffyg cymhelliant i'w dysgu hefyd. Mae ffactorau yn ymwneud â dysgu'r Gymraeg hefyd yn cael eu gweld fel her gyffredinol i'r Gymraeg ar Ynys Môn (29 ymateb arolwg).
- 6.41 Nododd ymatebwyr yr arolwg bod angen mwy o wersi dysgu Cymraeg ar Ynys Môn (90 ymateb arolwg) ac fe amlygir yn ogystal ystod o rwystrau yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth gyfredol. Ymhlith y rhwystrau a nodwyd oedd yr angen am wersi am ddim, am wersi sydd y tu allan i oriau gwaith, ac am leoliadau mwy cyfleus (lleol/canolog). Roedd rhai yn ffafrio gwersi wyneb yn wyneb ac eraill yn ffafrio gwersi ar-lein, sy'n awgrymu bod angen ystod o opsiynau i fodloni anghenion gwahanol. Roedd rhai am fynychu gwersi yn rhinwedd eu swydd. Roedd yna ganfyddiad gan rai bod y Gymraeg a ddysgir yn rhy ffurfiol a ddim yn addas i'w ddefnyddio ar lafar. Yn ôl un ymatebydd, *"Every day street Welsh is not what is taught on most courses and bears no resemblance to 'Council' Welsh."*
- 6.42 Roedd ffactorau yn ymwneud â hyder, rhuglder ac acen hefyd yn her i siaradwyr newydd (112 ymateb arolwg). Fel yr eglurodd un ymatebydd, *"Simple conversations for people who have basic Welsh but aren't confident enough to speak it as they are embarrassed, a lot of people my age know Welsh but think they are not good enough to hold a conversation."*
- 6.43 Testun trafod amlwg o fewn yr arolwg oedd canfyddiadau ynghylch agweddau siaradwyr Cymraeg rhugl tuag at siaradwyr newydd y Gymraeg. Cafwyd 46 ymateb arolwg yn nodi bod angen i siaradwyr Cymraeg arddangos agweddau mwy cadarnhaol a chefnogol tuag at siaradwyr Cymraeg newydd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gymunedol. Fel y dywedodd un ymatebydd, *"Attitudes - often those who want to learn and are trying to learn Welsh are discouraged by attitudes of Welsh speakers... More integration and social opportunities to encourage the use of Welsh may be beneficial."*
- 6.44 Cafwyd data ynglŷn â phrofiadau siaradwyr newydd oedd yn defnyddio'r Gymraeg ar blatfformau digidol. Nododd rhai ymatebwyr bod y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn ofod heriol i siaradwyr Cymraeg newydd ac yn eu hatal rhag ymarfer ysgrifennu yn y Gymraeg. Fel y nodwyd gan un ymatebydd, *"...social media can be very confrontational towards learners or those with no*

Welsh language skills. Gentle encouragement is needed. It can be a hostile environment for non-Welsh speakers."

Beth yw'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ar Ynys Môn?

- 6.45 Yn ôl y sawl a ymatebodd i'r arolwg ar-lein roedd yna nifer o heriau strwythurol yn wynebu'r Gymraeg ar Ynys Môn. Roedd yr heriau yn cynnwys prosesau mewnfudo ac allfudo a'r effeithiau ar gyfansoddiad ieithyddol yr ynys, cynnydd yn nifer yr ail gartrefi a thai haf ar yr ynys ynghyd ag effeithiau twristiaeth ar y Gymraeg.

Mewnfudo, Ail gartrefi, Tai Haf a Thwristiaeth

- 6.46 Yn ôl ymatebwyr yr arolwg roedd yna ganfyddiad mai un o'r prif heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ar Ynys Môn yw bod pobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo i'r ynys (nododd 176 o ymatebwyr hynny). Cafwyd ymatebion yn pwysleisio'r duedd i bobl hŷn symud i'r ynys. Er enghraifft, fel y nodwyd gan un ymatebydd, *"Older people are relocating to the island and there are fewer opportunities (and little encouragement) for them to learn Welsh."*
- 6.47 Yn ogystal, cafwyd sylwadau ynglŷn â natur raddol y mewnfudo a sut roedd hynny'n effeithio ar gyfansoddiad ieithyddol yr ynys dros gyfnod estynedig. Nodwyd bod yna gynnydd yn y boblogaeth ddi-Gymraeg ar Ynys Môn nad oedd yn ymwneud â'r Gymraeg o ddydd i ddydd, *"Cynnydd drip-drip/fesul bach o fewnfudwyr sy'n golygu dim drwg ynddyn nhw eu hunain, ond sydd ddim yn gweld gwerth mewn dysgu Cymraeg..."*
- 6.48 Roedd gofid am ddylanwad tai haf ac ail gartrefi ar y Gymraeg yn thema glir ymysg yr ymatebwyr (cafwyd 102 ymateb yn yr arolwg). Soniwyd bod ail gartrefi a thai haf yn cyfrannu at ddirywiad cymunedau, ac yn cael dylanwad andwyol ar y Gymraeg. Er enghraifft nododd un ymatebydd, *"The biggest destroyer of Communities is second homes and holiday homes. Unless the Welsh Government or Council introduce legislation to restrict this, there will be no hope for the language, no matter what you do to try and help and encourage Welsh Speakers"*.
- 6.49 Cafwyd sawl ymateb o fewn yr arolwg yn trafod sut roedd rhai o aelodau'r gymuned yn newid enwau tai ac enwau llefydd o'r Gymraeg gwreiddiol i'r Saesneg a gwelwyd hynny'n her i'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Fel y nododd un ymatebydd, *"They also need to do something about the trend to change Welsh names to English names on houses and to stop businesses like restaurants using an English name when they could use a Welsh name..."*
- 6.50 Yn ogystal, cyfeiriwyd at effaith prynu ail gartrefi ar ddefnydd iaith mewn lleoliadau cymdeithasol. Er enghraifft, nododd un ymatebydd bod *"Lot o ail gartrefi yn cael ei brynu gan pobl sydd ddim yn dod o'r ardal yn wreiddiol yn amharu ar defnydd yr iaith mewn llefydd cymdeithasol fel tafarndai, llefydd bwyta ayyb."*
- 6.51 Yn gysylltiedig â hyn roedd twristiaeth yn thema ymhlith yr ymatebwyr ymchwil. Cydnabuwyd pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol, ond canfyddiad ymatebwyr eraill oedd bod twristiaeth yn fygythiad i'r Gymraeg drwy ddylanwadu ar batrymau defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Er enghraifft, fel y nododd un ymatebydd, *"A lot of holiday makers need English so some people stop beginning things [starting conversations] in Welsh"*.

Allfudiad

- 6.52 Ochr yn ochr â'r mewnfudo roedd allfudo unigolion oedd yn siarad Cymraeg o'r ynys hefyd yn thema glir o fewn y data (cafwyd 33 ymateb arolwg). Yn ôl yr ymatebwyr, roedd yna nifer o ffactorau yn cyfrannu at allfudo ar Ynys Môn. Canfyddiad ymatebwyr yr arolwg oedd bod prisiau tai ac argaeledd stoc tai yn sgil y mewnfudo yn golygu nad oedd unigolion yn gallu aros o fewn eu cymunedau (cafwyd 36 ymateb arolwg). Er enghraifft, fel y nododd un ymatebydd, *"Pobl ddi-Gymraeg yn dod i fyw ar yr ynys ac yn prynu tai a thrwy hynny yn peri i brisiau tai godi y tu draw i allu ariannol pobl ifanc leol. O'r herwydd, mae pobl ifanc yn gorfod gadael i gael tai"*.
- 6.53 Yn ogystal â hyn, roedd diffyg gwaith a chyflogaeth hefyd yn ffactor oedd yn atal siaradwyr Cymraeg rhag gallu byw a gweithio ar yr ynys (cafwyd 31 ymateb arolwg), *"For the language to thrive, we need the next generation of Welsh speakers to grow up and live and work locally. There simply aren't the education or employment opportunities for them to stay here"*.
- 6.54 Nododd sawl ymatebydd ymchwil bod pandemig byd-eang Covid-19 wedi gwaethygu sefyllfa tai Ynys Môn, *"Cofid wedi gneud sefyllfa tai yn waeth yma - anodd iawn i bobol ifanc gystadlu efo prisiau tai mor uchel"*.

Agweddau tuag at y Gymraeg

- 6.55 O blith y sampl ymchwil, cafwyd 85 sylw yn cwestiynu gwerth y Gymraeg a pholisïau hyrwyddo'r Gymraeg. Yn eu plith, cwestiynwyd gwerth economaidd y Gymraeg, cost hyrwyddo'r Gymraeg a pholisïau'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ar yr ynys. Er enghraifft, cwestiynodd rhai o'r ymatebwyr werth a defnyddioldeb y Gymraeg, *"It's of no commercial benefit and expensive in both time and money to support."*
- 6.56 Nododd ymatebwyr ymchwil y dylai'r system addysg fod yn fwy hyblyg wrth gynnig dewis iaith i ddisgyblion ysgol heb orfodi'r Gymraeg arnynt. Yn ôl un ymatebydd, *"I disagree with the Governments attitude forcing people and children at school to speak Welsh. It should be a choice and far too much money is spent on it."*
- 6.57 Cafwyd sylwadau hefyd yn cyfeirio at y shifft ieithyddol a welwyd ar yr ynys a bod gan unigolion hawl i ddefnyddio'r Saesneg. Fel y nododd un ymatebydd, *"Anglesey has changed, 49% of residents do not speak the language. People have the right to speak English if they wish..."*

Pa fath o raglenni neu weithgareddau hoffech chi eu gweld yn cael eu datblygu i hybu'r Gymraeg ar Ynys Môn?

- 6.58 Sylwadau gan nifer o ymatebwyr unigol o fewn yr arolwg ar-lein a geir yn yr adran isod, yn hytrach na themâu ymchwil cyflawn. Er hynny, roedd yn bosib casglu sylwadau tebyg ynghyd o dan y penawdau sydd yn ymddangos yn y tabl isod.

Ffigur 21. Crynodeb o sylwadau cyfranogwyr

Rhaglenni a Gweithgareddau	Gweithgareddau
<u>Cymorth i adfywio'r Gymraeg mewn rhai cymunedau penodol</u>	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o gymorth i gymunedau defnydd isel penodol
<u>Hybu'r Gymraeg ymhlith grwpiau arbennig o bobl</u>	<ul style="list-style-type: none"> • Twristiaid • Mewnfudwyr • Pobl ifanc (ymwybyddiaeth iaith)
<u>Gweithgareddau ar y cyd i siaradwyr o alluoedd amrywiol</u>	<ul style="list-style-type: none"> • Siaradwyr Cymraeg yn gwirfoddoli i siarad Cymraeg â dysgwyr • Paned a Sgwrs gyda Chymdogion • Gweithgareddau hwyliog gyda thwristiaid a'u teuluoedd (Cyflwyno'r Gymraeg) • Cynllunio i adnabod unigolion sydd yn gallu cefnogi dysgwyr ('buddies iaith')
<u>Cymraeg mewn busnesau lleol</u>	<ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cefnogwyr iaith (e.e. mewn busnesau lleol) • Cryfhau elfen weledol yr iaith mewn siopau (bathodynau neu bosteri iaith) • Hyrwyddo cwmnïau sy'n defnyddio'r Gymraeg yn llwyddiannus (rhannu arfer ieithyddol da)
<u>Angen mwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg</u>	<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiadau cymunedol a diwylliannol • Gweithgareddau plant a phobl ifanc yn benodol • Gweithgareddau i bobl sy'n symud i'r ynys • Gweithgareddau cymdeithasol llai ffurfiol i siaradwyr newydd • Cymorth i Gymreigio gohebiaeth timau chwaraeon • Gweithio gyda hyfforddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gweithgareddau • Clybiau Cymraeg penodol (e.e. karate, bocsi, dawnsio, Lego)

6.59 Isod, gweler sylwadau gan ymatebwyr unigol wrth iddynt adrodd ar y mathau o raglenni yr hoffent eu gweld er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ar Ynys Môn.

Cymorth i adfywio'r Gymraeg mewn rhai cymunedau penodol :

6.60 Yn ôl data'r arolwg, roedd nifer o'r ymatebwyr wedi nodi bod angen cymorth pellach ar ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn llai amlwg yn y gymuned. *"Many of the activities I participate in*

offer little or no opportunity for Welsh speakers to use the language. Holyhead/Trearddur appear to have fewer Welsh speakers than in the centre and North of the island”.

- 6.61 Soniodd un ymatebydd am yr angen i gynnal y gweithgareddau cymunedol a drefnwyd gan Fenter Iaith Môn gan gydnabod ar yr un pryd bod angen ymyriadau penodol ar leoliadau penodol ar yr ynys. *“Dal ati efo gweithgareddau amrywiol y Fenter Iaith. Er mor werthfawr y ddarpariaeth yn y cadarnleoedd (e.e. canolbarth Môn), buasai'n syniad targedu mannau lle mae'r Gymraeg ar ei gwannaf (e.e. Ynys Cybi, ward Seiriol, ac ati)”.*
- 6.62 Nodwyd hefyd bod angen cymorth pellach i gymunedau gwledig a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu. *“More support for rural communities as focus appears to be shifting towards urban development. Rural communities were once the core of spoken Welsh.”*

Hybu'r Gymraeg ymhlith grwpiau arbennig o bobl

- 6.63 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yr arolwg (cafwyd 32 ymateb) at yr angen i hybu'r Gymraeg a'i diwylliant yn gyffredinol ar Ynys Môn. Cyfeiriwyd yn arbennig at godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith grwpiau gwahanol (e.e. twristiaid, mewnfudwyr a phobl ifanc) ac o fewn cyd-destunau gwahanol er mwyn hybu a datblygu dealltwriaeth fwy amlwg o'r Gymraeg ar Ynys Môn. *“Tourists and non Welsh speakers - I think these individuals are vital for the economy of the island but we should encourage more Welsh interaction...and encourage them to learn about our culture.”*
- 6.64 Yn ôl ymatebydd arall, mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith twristiaid sy'n ymweld â'r ynys yn gyson. *“Evening activities for family's and holiday camp sites to join in even if its one night a week while they stay on the Island. Many people come back year after year and don't even attempt the language. Through the holiday season.”*
- 6.65 Soniodd nifer o ymatebwyr bod angen codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o etifeddiaeth Ynys Môn. *“Dosbarthiadau dysgwyr a mewnfudwyr gyda phwyslais ar bwysigrwydd Cymreictod ein hetifeddiaeth e.e. enwau, tai, eiddo, ardaloedd, pentrefi, lonydd, glannau moroedd ag ati.”*
- 6.66 Gwnaed sylwadau ynghylch gwneud defnydd mwy helaeth o gymwysterau penodol yn yr ysgol fel ffordd o ddangos manteision a gwerth y Gymraeg. Un enghraifft ymarferol oedd cynnig ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r Fagloriaeth Gymreig. *“Targedu plant ysgol uwchradd - dysgu nhw am fanteision a chyfleoedd sy'n deillio o fod yn ddwyieithog a gwneud ymwybyddiaeth iaith yn rhan o'r Bac Cymreig.”*

Gweithgareddau ar y cyd i siaradwyr Cymraeg o alluoedd amrywiol

- 6.67 Nododd nifer o ymatebwyr yr arolwg (18 ymateb) y gellid gwneud mwy i ddod â phobl o wahanol gefndiroedd ieithyddol ynghyd. Bwriad y gweithgareddau fyddai dod â siaradwyr Cymraeg o alluoedd amrywiol at ei gilydd i ddefnyddio a mwynhau'r iaith. Nododd ymatebydd bod angen ymgyrch sy'n cynorthwyo siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf i annog unigolion eraill i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, *“Campaigns aimed at helping first language speakers to encourage non-speakers by making it fun!”*

- 6.68 Gweithgaredd posib a nodwyd o fewn ymatebion yr arolwg oedd sesiynau 'paned a sgwrs cymdogion' lle byddai modd i unigolion amrywiol ddysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch hwyliog gyda'i gilydd. *"Neighbours "paned a sgwrs" sessions, cultural awareness sessions for individuals moving here as well as for locals as we've lost focus too."*
- 6.69 Yn ogystal â hyn, cyfeiriwyd at yr angen i ddatblygu cynllun pencampwyr iaith o fewn cymunedau, neu gynllun 'buddy iaith' fyddai'n cynnig sesiynau mentora un-i-un rhwng siaradwyr Cymraeg o alluoedd amrywiol. *"Gwirfoddoli efo dysgwyr brwdfrydig ym mhob tref a phentref. Dwi di dechrau efo grŵp tebyg yn [lleoliad]. Rhannu adnoddau dysgu efo rhieni di-gymraeg i ddysgu ochr yn ochr gyda eu plant sy'n y cynradd."*

Cymraeg mewn busnesau lleol

- 6.70 Ymhlith y syniadau a gynigiwyd fel ymateb i'r cwestiwn hwn oedd creu cynllun i gydnabod y bobl o fewn cymunedau sydd eisoes yn cefnogi siaradwyr newydd a siaradwyr llai hyderus e.e. gweithwyr siop. Cynigiwyd hefyd y gellid cynnig hyfforddiant i weithwyr sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd ar sut i gefnogi siaradwyr newydd a rhai llai hyderus.
- 6.71 Nodwyd bod angen parhau ag elfennau gweledol o'r Gymraeg mewn siopau a busnesau a manau cyhoeddus sy'n cynnig croeso i bobl ymarfer eu Cymraeg gydag unigolion o fewn y parthau hyn.
- 6.72 Credai nifer a ymatebodd i'r arolwg fod gan fusnesau lleol rôl i'w chwarae yn y broses o adfywio'r Gymraeg ar Ynys Môn gan gynnig cyfleoedd pwysig i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn ddyddiol.

"Pwysig rhoi llwyfan i gwmnïau sydd wir yn hybu'r iaith a chydabod eu cyfraniad er mwyn rhoi esiampl i gwmnïau sy'n dewis peidio - hyn yn wir ar draws pob sector o gwmnïau arlwygo, bwytai, siopau i gwmnïau adeiladu, gweithgynhyrchu ayyb. Rhaid addysgu busnesau fod gwerth i'r iaith a'i bod yn hanfodol ei defnyddio ym mhob agwedd o fyd busnes. Gallu cael mynediad rhwydd at wasanaethau cyfieithu."

Yr angen am fwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar Ynys Môn

- 6.73 Roedd yna alw am ragor o weithgareddau neu ddigwyddiadau drwy'r Gymraeg ar Ynys Môn. Er enghraifft, nodwyd bod angen rhagor o ddigwyddiadau cymunedol a diwylliannol (51 ymateb arolwg). Nododd un ymatebydd fod angen buddsoddiad parhaol er mwyn sicrhau darpariaeth berthnasol, *"Continuing to support Welsh cultural events but staying relevant in a changing world."*
- 6.74 Nodwyd bod yna angen hefyd am fwy o weithgareddau a digwyddiadau i deuluoedd, plant a phobl ifanc yn benodol (36 ymateb arolwg).

"We have no preschool groups in the local village and the bus service is terrible. Lots of parents aren't able to drive. I think Welsh speaking needs to be embedded as early as possible so that it's use becomes habitual and a part of daily life."

- 6.75 Fel y nododd ymatebydd arall, roedd angen blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc hŷn. *“Mae angen gweithgareddau ar gyfer ieuenctid yn eu harddegau, dyna pryd maent yn dueddol o droi yn erbyn siarad Cymraeg a cheisio bod yn cŵl gyda ei ffrindiau.”*
- 6.76 Hoffai unigolion nad oeddent yn rhugl yn y Gymraeg weld mwy o gyfleoedd i ddysgu neu ymarfer yr iaith Gymraeg ac i gymdeithasu yn y Gymraeg (18 ymateb arolwg). Cyfeiriwyd at yr angen i greu gweithgareddau amrywiol i ddysgwyr sydd yn symud y tu hwnt i'r ystafell dosbarth, ble mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan o weithgaredd arall.
- 6.77 *“Social groups / community groups for learners that are practical or have more than one aim e.g walking group with an emphasis on learning Welsh as opposed to sitting in a room having to learn Welsh.”* Yn ogystal, roedd yna alw am fwy o Gymraeg o fewn cyd-destunau chwaraeon a chadw'n heini gan gynnwys gweithgareddau lles (11 ymateb arolwg).
- 6.78 Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i gefnogi gweithgareddau sydd eisoes yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Nododd un ymatebydd arolwg bod angen cynnig cymorth i glybiau ohebu yn y Gymraeg. Nodwyd hefyd yr un angen i gefnogi hyfforddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o weithgareddau'r clwb.

“Helpu i Gymreigio gohebiaeth timau pêl-droed. Atgoffa athrawon nofio i siarad Cymraeg yn y gwersi yn lle bod mwy o Saesneg yn cael ei siarad weithiau.” Nodwyd bod angen cynnal clybiau diddordeb penodol drwy'r Gymraeg. Nododd un ymatebydd, *“Clybiau Penodol drwy gyfrwng y Gymraeg YN UNIG efo trawstoriad eang o weithgareddau i bobl ifanc. Karate / bocsio / dawnsio / Lego / actio etc.”*

Canlyniadau Grwpiau Ffocws yn ôl cymuned

- 6.79 Mae'r adran hon yn adrodd ar y data ansoddol a gasglwyd gan gyfranogwyr grwpiau ffocws yr astudiaeth. Cynhaliwyd cyfanswm o 9 grŵp ffocws gyda rhanddeiliaid amrywiol. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws o fewn 3 cymuned ddaearyddol ar Ynys Môn, sef cymunedau Amlwch, Caergybi a Llangefni. Dewiswyd y cymunedau hyn mewn cydweithrediad â Chyngor Môn a Menter Iaith Môn, yn seiliedig ar gyfansoddiad ieithyddol y cymunedau hyn.
- 6.80 Gan fod Ynys Môn yn ardal wledig, penderfynwyd cynnwys cyfranogwyr o bentrefi cyfagos fel rhan o sampl y grwpiau ffocws hyn gan fod y tair cymuned yn fannau siopa a chyrchu gwasanaethau pwysig i'r pentrefi cyfagos. O fewn pob cymuned unigol, cynhaliwyd 3 grŵp ffocws gyda grwpiau pobl ifanc 16-18 oed, pobl fusnes a oedd yn rhedeg busnesau o fewn y cymunedau hyn, ac unigolion oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Ynys Môn yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Casglwyd data ansoddol am arferion iaith, profiadau a chanfyddiadau cyfranogwyr y grwpiau ffocws o'r defnydd o iaith o fewn eu cymunedau hwy. Gan fod maint sampl y grwpiau ffocws yn gymharol fach, mae angen bod yn ofalus wrth gyffredinolli o ganlyniadau'r cyfranogwyr hyn, ac mae'n bwysig cydnabod bod y data canlynol yn adlewyrchu barn a phrofiadau'r cyfranogwyr hynny a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn unig.
- 6.81 Yn ystod yr adran hon, adroddir ar y themâu allweddol a gododd o grwpiau ffocws yr astudiaeth ymchwil fesul cymuned sef Amlwch, Caergybi a Llangefni. Yn ogystal, adroddir canlyniadau'r grwpiau ffocws fesul cymuned gan drafod safbwyntiau grwpiau targed allweddol yr ymchwil sef pobl ifanc, pobl fusnes ac unigolion oedd wedi symud i'r ardal o fewn yr ugain mlynedd diwethaf. Fe fyddwn yn trafod y themâu canlynol:

- Defnydd cymunedol o'r Gymraeg
- Y Gymraeg mewn siopau a busnesau
- Rhuglder a hyder siaradwyr Cymraeg
- Defnydd o'r Gymraeg ar-lein
- Pandemig Covid-19 a'r Gymraeg

- 6.82 Er mwyn gwarchod cyfrinachedd ymhlith ysgolion yr ardal ymchwil, ni fyddwn yn trafod canlyniadau addysg yn ôl cymuned. Yn hytrach, trafodir arferion ieithyddol o fewn y system addysg mewn adran benodedig.
- 6.83 Mae cynnal ymchwil ym maes cynllunio ieithyddol yn dod â sawl her yn ei sgil. Mae amrediad eang o ffactorau yn gallu dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol unigolion a chymunedau, ac mae dadansoddi a dehongli'r maes yn gofyn am ystyriaeth o sawl ffactor cyd-gysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys y cyd-destun cymdeithasegol a deddfwriaethol, a llu o ystyriaethau sydd yn gysylltiedig â'r siaradwyr eu hunain - eu gallu ieithyddol, rhuglder, hyder, agweddau, eu hawydd i ddefnyddio'r iaith, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt wneud hynny. Mae'r gymuned yn aml yn dod â'r elfennau hyn ynghyd, ac felly yr her amlwg i ymchwilwyr yw pwyso a mesur effaith y dylanwadau aml-haenog hyn ar iaith a'i defnydd mewn cymuned.

Amlwch

Defnydd cymunedol o'r Gymraeg

- 6.84 Yn gyffredinol, canfyddiad cyfranogwyr grwpiau ffocws Amlwch oedd bod y gymuned yn un ddwyieithog ond bod yna shifft ieithyddol wedi bod o'r Gymraeg i'r Saesneg fel prif iaith gweithgareddau'r gymuned. Thema ymhlith y grwpiau ffocws oedd dylanwad twristiaeth ar Amlwch gan fod hynny'n effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned. Fe adroddir themâu allweddol fesul grwpiau allweddol yr ymchwil isod.
- 6.85 Yn ôl y grŵp ffocws bobl ifanc nodwyd bod yna gymysgedd o Gymraeg a Saesneg o fewn y gymuned, ond bod y Saesneg yn dominyddu bellach. Yn ogystal, roedd yna ganfyddiad mai'r genhedlaeth hŷn oedd yn defnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned. Canfyddiad cyfranogwyr y grŵp ffocws oedd bod aelodau'r gymuned yn dueddol o gychwyn sgwrs yn Saesneg, hyd yn oed siaradwyr Cymraeg rhugl.
- 6.86 Roedd yna gyfleoedd amrywiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn Amlwch, ond yn ôl aelodau'r grwpiau ffocws gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal yn Saesneg gan fwyaf oedd y rhain erbyn hyn. Roedd tystiolaeth bod rhai gweithgareddau wedi'u cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gorffennol, ond bellach bod y gweithgareddau hynny yn cael eu cynnal yn Saesneg. Yn ôl y grŵp ffocws pobl ifanc, roedd iaith yr hyfforddwyr neu hyder yr hyfforddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wedi dylanwadu ar gyfrwng iaith gweithgareddau'r clybiau hamdden.⁶ O ganlyniad, cynhaliwyd sawl gweithgaredd cymunedol yn y Saesneg erbyn hyn. Un enghraifft benodol oedd gweithgaredd lleol lle roedd yr hyfforddwr yn medru'r Gymraeg ond yn fwy cyfforddus yn defnyddio'r Saesneg. O ganlyniad roedd nifer o siaradwyr Cymraeg oedd yn mynychu'r gweithgaredd yn defnyddio'r Saesneg gyda'i gilydd o fewn y wers.

⁶ Mae'r clybiau hamdden yn cynrychioli ystod o ddarparwyr amrywiol o fewn sectorau gwahanol.

- 6.87 Yn ôl aelod grŵp ffocws pobl ifanc Amlwch, roedd rhai grwpiau cymunedol wedi dod i ben oherwydd diffyg hyfforddwyr, roedd y clwb pêl-droed yn enghraifft o hynny. *“Roedd yna bobl Cymraeg pan oedd o’n mynd, ond oedd ‘na jyst ddim digon o bobl i gario fo mlaen.”* Tynnwyd sylw at y ffaith hefyd bod gŵyl leol Copperfest wedi dod i ben a bod yna ymdeimlad o golled yn gysylltiedig â hyn o fewn y gymuned. Yn ôl un aelod o grŵp ffocws pobl ifanc Amlwch, *“O’dd Copperfest yn massive o beth. Dwi’n meddwl bod hynny wedi cael effaith mawr ar y gymuned, bod ni ddim yn dod at ein gilydd cymaint”.* Roedd yna hefyd ganfyddiad bod yna mwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant iau (e.e. Blwyddyn 7-9), ond bod yna lai ar gyfer pobl ifanc hŷn yn Amlwch.
- 6.88 Yn ôl grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i’r ardal o fewn yr ugain mlynedd diwethaf, roedd rhai gweithgareddau cyfrwng Cymraeg wedi dod i ben yn sgil pandemig byd-eang Covid-19 ac roedd gweithgareddau tebyg yn cael eu cynnal yn Saesneg yn lleol. *“They used to go to Welsh quiz nights in a nearby village, but it hasn’t restarted after COVID. Local pub tends to do this kinds of thing in English.”* Yn ôl un aelod o’r grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn, roedd parchu’r Gymraeg a gwneud ymdrech i’w defnyddio yn elfen bwysig o fyw yng nghymuned Amlwch.
- “Part of being involved so much in the community is to make an attempt to speak and learn the language, because it goes hand in hand. I’m aware that I’ve moved into their village, and it’s very appreciated.”*
- 6.89 Yn ôl cyfranogwyr y grŵp ffocws busnes, awgrymwyd bod yna rwydweithiau agosach a digwyddiadau mwy cyson yn Amlwch dros y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd bod dylanwad y cyfryngau cymdeithasol yn bwysig er mwyn creu’r ymdeimlad o gymuned. O safbwynt y Gymraeg yn Amlwch, nododd cyfranogwyr y grŵp busnes bod gweithgareddau sy’n digwydd mewn cymunedau gwledig yn nalgylch yr ardal yn dueddol o fod yn fwy ‘Cymreigaidd’ nag yn nhrefi Amlwch a Cemaes eu hunain. Nododd y cyfranogwyr ymchwil bod yna raniad yn y gymdeithas rhwng pobl a oedd yn enedigol o’r ardal, a phobl a oedd wedi symud i Amlwch yn fwy diweddar.

Y Gymraeg mewn siopau a busnesau

- 6.90 Yn Amlwch, thema gyffredinol y grwpiau ffocws oedd mai’r iaith o ddydd i ddydd o fewn siopau a busnesau’r gymuned oedd Saesneg. Cafwyd tystiolaeth o ddefnydd o’r Gymraeg o fewn siopau a busnesau’r gymuned, ond roedd ffactorau fel arferion a gallu ieithyddol yn effeithio ar ddefnydd o’r Gymraeg o fewn y sector hwn. Thema amlwg oedd bod angen mwy o gymorth ar fusnesau i weithredu’n ddwyieithog.
- 6.91 Yn ôl cyfranogwyr y grŵp ffocws busnes roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio o fewn busnesau’r ardal. Er hynny, roedd tystiolaeth o’r grwpiau ffocws bod Saesneg yn aml yn cael ei defnyddio fel iaith ddiofyn siopau a busnesau’r ardal. Yn ôl y grŵp ffocws busnes, roedd arferion ieithyddol yn y gweithle yn dylanwadu ar ddefnydd iaith trigolion. Er enghraifft, wrth i unigolion ddysgu Cymraeg, nodwyd ei bod hi’n anodd newid arferion ieithyddol o siarad Saesneg gyda’r unigolion hynny. Nodwyd hefyd yr arfer o siaradwyr Cymraeg yn newid i siarad Saesneg mewn sefyllfa waith lle nad oedd pawb yn gallu siarad Cymraeg. *“Efallai bod criw o bobl Cymraeg yno, ond os oes un Saesneg yna, ‘dan ni gyd yn gorfod troi i’r Saesneg.”*
- 6.92 Yn ôl y cyfranogwyr busnes, roedd yna duedd i iaith ddiofyn y busnes fod yn Saesneg ac mai ar hap yr oeddent yn darganfod fod cwsmeriaid yn siarad Cymraeg. O ganlyniad, cyfeiriwyd at bwysigrwydd defnyddio bathodynau iaith fel modd o adnabod siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd gan y busnes sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg i greu cynnwys gwefan, cylchlythyrau a chynnwys cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg. Roedd

ymwybyddiaeth ymhlith y sampl o wasanaethau Menter Iaith Môn a'r cymorth sydd ar gael i fusnesau wrth iddynt ddatblygu gweithdrefnau iaith Gymraeg. Er hynny, roedd barn ymhlith y sampl a holwyd bod angen gwneud mwy i hyrwyddo'r math o gefnogaeth oedd ar gael i fusnesau ddefnyddio'r Gymraeg. Yn benodol, roedd cymorth gyda chyfieithu yn thema gyson, yn enwedig cyfieithu cyflym at ddibenion busnes.

- 6.93 Ymhlith y grŵp ffocws pobl ifanc, roedd gan y mwyafrif swyddi rhan-amser lle roeddent yn dod i gyswllt â'r cyhoedd. Roedd yr unigolion hyn yn gallu siarad Cymraeg ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddefnyddio sgiliau iaith o fewn eu gweithleoedd. I'r sawl nad oedd yn siarad llawer o Gymraeg tu allan i'r ysgol, dyma gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn siopau a busnesau cymuned Amlwch a chyfrannu at ddefnydd cymunedol o'r iaith.

Rhuglder a hyder siaradwyr Cymraeg

- 6.94 Thema glir o fewn grwpiau ffocws Amlwch oedd yr angen i wneud mwy i helpu siaradwyr Cymraeg newydd i deimlo'n hyderus i ymarfer eu Cymraeg. Roedd nifer o sylwadau am brofiadau siaradwyr Cymraeg newydd ac agweddau siaradwyr Cymraeg tuag at siaradwyr newydd yn ogystal.
- 6.95 Gwelwyd canfyddiad ymhlith y grŵp ffocws busnes nad oedd gan staff y busnes y sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu deunyddiau ysgrifenedig yn y Gymraeg (e.e. adnoddau gwefan). Roedd hynny'n thema amlwg ac yn faes lle roedd cyfranogwyr yn awyddus i dderbyn cymorth pellach.
- 6.96 Ymhlith y sampl pobl ifanc, roedd enghreifftiau o siaradwyr Cymraeg llai rhugl yn colli hyder dros amser yn eu sgiliau Cymraeg yn thema amlwg yn Amlwch. Yn ôl y sawl a holwyd, roedd enghreifftiau o rai siaradwyr Cymraeg newydd yn cael profiadau negyddol wrth ddysgu a defnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned. Nododd un aelod o'r grŵp ffocws pobl ifanc ei bod wedi dysgu Cymraeg i safon dda, ond credai bod ei defnydd o'r Gymraeg wedi lleihau dros y blynyddoedd gan fod siaradwyr Cymraeg eraill yn tynnu sylw at ei hacen Saesneg.

"I felt pretty confident in it [Welsh]...But, kids, being kids... they'd point it out. You know, "you don't sound Welsh", "why are you talking like that? 'Cause again, it was like, by the book, it wasn't very common language. So it would always be commented on, and by the age of like 12, I just stopped [using Welsh]."

- 6.97 Soniodd y grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf (a oedd yn dysgu'r Gymraeg) bod nifer o rwystrau yn eu hatal rhag defnyddio'r Gymraeg yn gyson o fewn y gymuned. Disgrifiodd un aelod o'r grŵp ffocws bod ei bartner yn teimlo embaras ac yn teimlo'n lletchwith wrth siarad Cymraeg o fewn y gymuned. Nododd fod hyder a chyflymder sgysiaiu yn rhwystro defnydd cyson o'r Gymraeg.

"If you try to speak Welsh to the Welsh speakers, they will indulge you however they will switch back to English eventually. I think it's a speed thing, because it takes a little while for us to answer, and then they'll ask in English. It's just a social thing really to facilitate conversation".

Defnydd o'r Gymraeg ar-lein

- 6.98 Roedd pobl ifanc grŵp ffocws Amlwch yn trafod eu defnydd o'r Gymraeg ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Patrwm cyffredinol ymysg y sawl a holwyd oedd eu bod yn defnyddio cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol yn dibynnu ar y person roedden nhw'n siarad â nhw ar y cyfryngau. Roedd defnydd iaith y bobl ifanc yn hyblyg yn dibynnu ar ddefnydd eu cyfoedion. Wrth drafod gwefan Facebook yn benodol, soniodd nifer eu bod yn rhoi "statws" yn Saesneg fel arfer os oeddent yn defnyddio gwefannau cymdeithasol fel bod eu holl ffrindiau yn gallu deall y post, roedd ymdeimlad o fewn y grŵp bod eisiau cynnwys pawb.
- 6.99 Prif drafodaeth grŵp ffocws busnes Amlwch oedd ynghylch deunyddiau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg ar-lein. Nododd nifer o gyfranogwyr y grŵp ffocws bod eu deunyddiau ar-lein yn Saesneg yn unig, ag y byddent angen cymorth i ddatblygu'r Gymraeg yn y parth hwnnw. Teimlad cyffredinol y grŵp oedd bod angen iddynt wella'r elfen hon o'u busnesau ond ei bod hi'n anodd gwneud hynny gan nad oedd ganddynt y sgiliau ieithyddol angenrheidiol. Soniwyd eto bod angen cymorth i gyfieithu hysbysebion a deunydd marchnata brys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Pandemig Covid-19 a'r Gymraeg

- 6.100 Yn ôl grwpiau ffocws cymuned Amlwch, roedd tystiolaeth bod nifer o fusnesau annibynnol wedi'u sefydlu ers y cyfnod clo. Canfyddiad ymhlith cyfranogwyr grwpiau ffocws Amlwch oedd mai busnesau a gychwynwyd gan unigolion oedd wedi mewnfudo i'r ardal ers y cyfnod clo oedd nifer o'r rhain.
- 6.101 Roedd yna dystiolaeth o'r grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i'r ardal yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf bod yna nifer o weithgareddau defnyddiol i siaradwyr Cymraeg newydd cyn y pandemig, ond bod angen i'r rhain ailddechrau. Nododd un ymatebydd, *"Pre-pandemic there were quite a few panad a sgwrs sessions around the island, it would be good to restart and to distinguish between different abilities. Its important to speak to those of similar level of Welsh."*
- 6.102 Nododd nifer o grŵp ffocws pobl ifanc Amlwch bod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r system addysg. Yn benodol, nododd unigolion o aelwydydd di-Gymraeg bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu defnydd a'u hyder wrth siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Yn ôl un aelod o'r grŵp ffocws, *"I definitely had a lot less Welsh in my life for 2 years."* A nododd unigolyn arall bod ailgydio yn y Gymraeg ar ôl cyfnod y pandemig yn gallu bod yn heriol. *"It was a bit daunting to come back, 'cause at first it was really confusing, 'cause I'd completely lost it [the Welsh language]."*

Caerdybi

Defnydd cymunedol o'r Gymraeg

- 6.103 Thema gyffredin ymysg grwpiau ffocws Caerdybi oedd bod yna gyfleoedd amrywiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yng Nghaerdybi. Fodd bynnag, nodwyd bod y gweithgareddau yma'n cael eu cynnal yn y Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg ran fwyaf.

- 6.104 Yn ôl grŵp ffocws pobl ifanc Caerdybi, er bod rhai teuluoedd yn siarad Cymraeg yng Nghaerdybi, nid oedd y Gymraeg i'w chlywed ryw lawer yn y gymuned. Canfyddiad pobl ifanc Caerdybi oedd bod y Gymraeg yn iaith yr aelwyd i rai teuluoedd, ond nad oedd yn iaith y gymuned ehangach. Roedd nifer o glybiau dawn, pêl-rwyd a phêl-droed a chlybiau ieuenctid yn cael eu cynnal drwy'r Saesneg.
- 6.105 O ran mynychu digwyddiadau, nid oedd y sampl pobl ifanc a holwyd yn credu bod yna ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghaerdybi ac roeddent yn siomedig am hynny. Nododd un person ifanc o'r grŵp ffocws, *"Its like a waste, cause we can speak Welsh, we just can't use it"* (Cyfranogwr Ymchwil Grŵp Ffocws Pobl Ifanc Caerdybi).
- 6.106 Er hynny, roedd ymdeimlad o werthfawrogi gweithgareddau cyfrwng Cymraeg penodol a oedd yn cael eu trefnu yng Nghaerdybi (gan sefydliadau amrywiol). Un enghraifft o ddigwyddiad a nodwyd gan y grŵp oedd yr orymdaith Gŵyl Ddewi yng Nghaerdybi, *"It was so encouraging just to speak Welsh to people. Cause it was like all around this one Welsh thing."* (Aelod o grŵp ffocws pobl ifanc Caerdybi)
- 6.107 Roedd canfyddiad gan sawl aelod o'r grŵp ffocws pobl ifanc bod angen teithio i lefydd 'mwy Cymreig' (e.e. Llangefni) er mwyn ymwneud â gweithgareddau Cymraeg. Roedd hefyd ymdeimlad ymhlith rhai o aelodau'r sampl o bobl ifanc Caerdybi bod angen sgiliau Cymraeg mwy rhugl arnynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn ardaloedd fel Llangefni (e.e. clwb pêl-rwyd).
- 6.108 Yn ôl grŵp ffocws pobl fusnes Caerdybi, roedd yna ymdeimlad bod rhwydwaith da o fusnesau bach, lleol yn cydweithio ac yn gefnogol i'w gilydd yng Nghaerdybi. Nododd aelodau'r grŵp bod cyfuniad o bobl leol a thwristiaid yn cynnal y busnesau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.
- 6.109 Soniodd aelodau o'r grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i'r ardal yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf fod Caerdybi yn ardal fwy di-Gymraeg o'i chymharu ag ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru. Pwysleisiwyd fod yna lai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yng Nghaerdybi;
- "Of all the places I've lived in North Wales, I've got to say Holyhead feels like the least Welsh, I think it's got something to do with it being a port town. I've found it a bit of a culture shock that they don't seem to use the Welsh language as much as in Bangor."*
- 6.110 Nodwyd bod rhai cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus a nodwyd gwasanaethau meddyg fel yr enghraifft fwyaf amlwg gan y grŵp ffocws penodol yma. Er hynny, nododd rhai aelodau o'r grŵp ffocws pobl ifanc bod yn well ganddynt ddefnyddio'r Saesneg yn y cyd-destun meddygol. *"You do get the option [at the doctors]. They ask you if you'd prefer to speak Welsh or English. But I don't know all the terms in Welsh, so I speak in English in case I get it wrong."*
- 6.111 Soniodd aelodau o'r grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i'r ardal o fewn yr ugain mlynedd diwethaf bod yna ganfyddiad bod dwy gymuned o fewn ardal Gaerdybi a'r cyffiniau, un i'r siaradwyr Cymraeg ac un arall i aelodau sydd wedi symud i'r ardal. Nododd un aelod o'r grŵp bod canfyddiad bod siaradwyr Cymraeg yn siarad Saesneg gyda'r aelodau hynny achos nad oedden nhw o'r ardal yn enedigol:
- "Trearddur Bay and Holyhead, even though there are a significant number of Welsh speakers, English is very much the default. You may hear Welsh people speaking Welsh to each other, but they will speak English with you."* (Aelod o grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn)

Y Gymraeg mewn siopau a busnesau

- 6.112 Yng Nghaerbybi, roedd yna ganfyddiadau cymysg ymhlith aelodau'r grwpiau ffocws am y defnydd o'r Gymraeg yn siopau a busnesau amrywiol y dref. Roedd tystiolaeth o'r grwpiau ffocws yn awgrymu mai Saesneg oedd iaith ddiofyn y siopau a busnesau preifat. Er hynny, nodwyd bod gan weithwyr neu berchnogion busnes sgiliau Cymraeg ond bod y rhan fwyaf o'r rhyngweithiadau o fewn y siopau yn digwydd drwy'r Saesneg.
- 6.113 Er hynny, nodwyd bod rhai sefydliadau yn hollbwysig ar Ynys Môn er mwyn hybu'r Gymraeg o fewn busnesau, codi ymwybyddiaeth o gyrsiau dysgu Cymraeg a sicrhau cymorth er mwyn defnyddio mwy o Gymraeg o fewn busnesau. Cyfeiriwyd at nifer o grwpiau a sefydliadau gwahanol sy'n gweithio'n gyson o fewn Caerbybi er mwyn codi proffil y Gymraeg mewn busnesau.
- 6.114 Roedd nifer o bobl ifanc y sampl ymchwil yn gweithio'n rhan-amser (e.e. mewn siopau neu dafarndai lleol) tra'n astudio yn yr ysgol a nododd sawl un bod y gweithle'n cynnig cyfle prin iddynt ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r system addysg. Nododd y sampl ymchwil eu bod yn falch o'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg a bod eu cyflogwyr yn ymfalchio yn eu sgiliau iaith hefyd. Er hynny, nodwyd bod yna heriau cyfathrebu yn Gymraeg a dewis pa iaith yr oeddent i fod i gychwyn sgwrs ynddi hefyd a bod hynny'n aml yn effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg. Nododd aelodau'r grŵp ffocws pobl ifanc eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg os oedd cwsmer yn cychwyn y sgwrs yn Gymraeg, ond roedd nifer wedi nodi bod cwsmeriaid yn cymryd yn ganiataol nad ydynt yn medru defnyddio'r Gymraeg yng ngweithfeydd Caerbybi. Fel y nododd un cyfranogwr, *"... you can hear them speaking Welsh to each other, but then they'll speak English to you first, not thinking you can speak it [Welsh]. People just like assume you don't speak it [Welsh]."* (Cyfranogwr Ymchwil Grŵp Ffocws Pobl Ifanc Caerbybi).
- 6.115 Nododd rhai o bobl ifanc y sampl ymchwil bod eu gallu i siarad Cymraeg yn medru cynnig mantais o safbwynt eu gyrfaedd yn y dyfodol, er nad oedd pawb yn y grŵp ffocws yn cydweld wrth drafod hyn. Fel y nododd un cyfranogwr, *"... now more jobs need it... 'Cause I know I do, 'cause I want to go into working in hospitals and stuff. And they want people that can speak Welsh. That's what makes me want to speak Welsh more."* (Cyfranogwr Ymchwil Grŵp Ffocws Pobl Ifanc Caerbybi).
- 6.116 Adroddodd aelodau grŵp ffocws busnes Caerbybi ar y cynlluniau oedd ganddynt i ddefnyddio ac i hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu busnesau yn ogystal â rhai o'r heriau oedd yn eu hwynebu hefyd.
- "Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd o'r busnes. Mae llawer o bobl yn defnyddio'r Gymraeg efo (enw'r busnes) na fuasai'n gwneud hynny efo busnesau eraill. Rydym yn delio â helpu pobl sydd wedi symud i'r ardal i integreiddio a chanfod gwersi Cymraeg. Mae cyfieithu yn digwydd gan bobl o fewn y busnes."* (Grŵp ffocws busnes, Caerbybi)
- 6.117 Soniodd busnes arall o'r grŵp ffocws ei bod hi'n bwysig cydnabod anghenion amrywiol twristiaid a phobl leol wrth ystyried rôl y Gymraeg yn y busnes. Nododd gweithiwr un busnes bod modd defnyddio'r Gymraeg fel testun i ennyn diddordeb twristiaid a bod hynny'n dda i'r busnes. Nododd yr unigolyn yma hefyd bod y busnes yn cynnig ei hun fel lleoliad i ddysgwyr Cymraeg ymarfer eu sgiliau iaith hefyd.
- 6.118 Nododd aelodau'r grŵp ffocws bod yna heriau wrth ddefnyddio'r Gymraeg o fewn busnesau yng Nghaerbybi a bod angen codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau. Fel y nododd un cyfranogwr, *"Dwi'n meddwl fod o'n gallu bod yn anodd i bobl wybod lle i gael*

gwybodaeth ynglŷn â ffynonellau ynglŷn â sut i ddysgu Cymraeg, cael gwersi, gwasanaeth cyfieithu i fusnesau."

- 6.119 Cafwyd sylwadau hefyd gan aelodau'r grŵp ffocws busnes ynghylch yr heriau cyson o gyfieithu adnoddau gwahanol i'r Gymraeg.

Rhuglder a hyder siaradwyr Cymraeg

- 6.120 Roedd ffactorau megis rhuglder a hyder yn effeithio ar ddefnydd iaith unigolion o gefndiroedd ieithyddol amrywiol o fewn y sampl ymchwil. Yn ôl rhai o aelodau grŵp ffocws pobl ifanc Caerdybi, nodwyd pwysigrwydd cyfoedion a'r ymdeimlad o gydymffurfio â'r mwyafrif wrth gyfathrebu mewn grŵp. O ganlyniad, roedd yna duedd i siarad Saesneg yn hytrach na Chymraeg o fewn yr ysgol yn gyffredinol. Yn ôl un person ifanc yng ngrŵp ffocws Caerdybi:

"I get put off if other people aren't speaking it. I'm not like, going to be the only one that does it. Like, if they started speaking Welsh, I probably would as well. But if they're speaking English, I'll just go to English, if that makes sense." (Cyfranogwr Ymchwil Grŵp Ffocws Pobl Ifanc Caerdybi)

- 6.121 Roedd y sampl o bobl ifanc a holwyd hefyd yn cymharu eu defnydd iaith gyda defnydd iaith ffrindiau ac aelodau'r teulu a oedd yn byw mewn ardaloedd gwahanol o Ynys Môn, lle roedd mwy o Gymraeg yn cael ei siarad. Nodwyd bod unigolion mewn cymunedau eraill y cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, a bod hynny yn codi eu lefelau rhuglder a'u hyder. Roedd teimlad ymhlith y grŵp ffocws hwn nad oedd cyfleoedd tebyg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned yn yr un ffordd yng Nghaerdybi.
- 6.122 Soniodd aelodau o'r grŵp ffocws busnes bod rhuglder a hyder yn effeithio ar ddefnydd iaith ar-lein rhai o'u gweithwyr, yn enwedig os ydynt yn siaradwyr Cymraeg newydd. Roedd ymatebion a chwynion am safon Cymraeg rhai o'u gweithwyr yn her ac yn rhwystyr iddynt barhau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol feysydd o'u busnes (e.e. roedd yn effeithio ar eu parodrwydd i bostio'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol).
- 6.123 At hynny, nododd rhai o aelodau'r grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn bod cael eu cywiro wrth siarad Cymraeg gan siaradwyr Cymraeg eraill yn effeithio ar eu rhuglder a hyder wrth ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yng Nghaerdybi. Nododd un aelod o'r grŵp ffocws yma bod hyn yn *"... extra barrier where you don't want to be embarrassed or corrected, and so ultimately it's kind of easier not to try unfortunately."* (Cyfranogwr grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn, Caerdybi)

Defnydd o'r Gymraeg ar-lein

- 6.124 Yn ôl y grŵp ffocws busnes yng Nghaerdybi, cyfeiriwyd at yr her o gyfieithu gwybodaeth ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol fel ffactor sy'n effeithio ar ddefnydd eu busnes o'r Gymraeg ar-lein. Nodwyd hefyd bod rhuglder a hyder staff yn effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg ar-lein, yn enwedig gan fod yr elfen o bostio'n gyhoeddus yn gallu bod yn heriol. Soniodd rhai aelodau o'r grŵp ffocws bod chwynion am safon Cymraeg rhai busnesau ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn her ac yn rhwystyr i fusnesau barhau i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ôl un o gyfranogwyr grŵp busnes Caerdybi:

"Cost ac amser ydy'r her fwyaf [o weithredu'n ddwyieithog]. Mae'r perchennog yn gwneud y gwaith cyfryngau cymdeithasol ei hun gan gynnwys cyfieithu. Mae derbyn

cwynion felly am ddefnydd neu safon y Gymraeg yn rhwystredig o ganlyniad.” (Grŵp ffocws busnes, Caergybi)

Pandemig Covid-19 a'r Gymraeg

- 6.125 Cafwyd ymatebion cymysg ynghylch sut roedd pandemig Covid-19 wedi dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg ymhlith aelodau'r grwpiau ffocws gwahanol. Yn ôl nifer o aelodau grŵp ffocws pobl ifanc Caergybi, yr ysgol oedd un o ychydig lefydd lle roeddent yn defnyddio'r Gymraeg ac felly roedd y pandemig yn golygu bod llai o gyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Fel y dywedodd un cyfranogwr, *“I think it has [influenced use of Welsh]. Cause like, I obviously don't speak Welsh with my Mum and Dad at home. And then when I came back to school, I was like, “oh, I have to speak Welsh again. Its like learning Welsh again.”* (Cyfranogwr Ymchwil Grŵp Ffocws Pobl Ifanc Caergybi)
- 6.126 Er hynny, soniodd aelodau o rai o fusnesau Caergybi bod pandemig Covid-19 wedi bod yn fuddiol i'w busnesau am fod patrymau siopa wedi newid, a bod nifer o bobl wedi cynyddu eu cefnogaeth i fusnesau lleol a chynnyrch lleol. Yn ogystal â hyn, nododd nifer o gyfranogwyr y grŵp ffocws busnes bod newidiadau yn y farchnad waith wedi creu cyfleoedd wrth i unigolion chwilio am swyddi newydd, neu gychwyn busnesau newydd eu hunain.

Llangefni

Defnydd cymunedol o'r Gymraeg

- 6.127 Yn ôl y bobl ifanc a holwyd yn Llangefni, nodwyd mai'r Gymraeg oedd prif iaith y gymuned honno, gyda defnydd cyson o'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau o ddydd i ddydd, a hynny ar draws y cenedlaethau. Nodwyd hefyd bod defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned hon yn digwydd o fewn nifer o gyd-destunau gwahanol, gan gynnwys y gymuned, y gweithle, ym myd addysg, ar-lein ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus (e.e. wrth ymweld â'r feddygfa). Yn ôl y grŵp ffocws busnes, roedd y Gymraeg yn iaith gymunedol amlwg yn Llangefni, ac adlewyrchwyd hyn yn y ffaith bod cwmnïau a gymerodd ran yn y grŵp ffocws yn cyflogi siaradwyr Cymraeg.
- 6.128 Er y canfyddiad hwn o'r Gymraeg fel iaith amlwg yn Llangefni, nododd cyfranogwyr y grŵp ffocws pobl ifanc bod cymysgedd o'r Gymraeg a Saesneg yn cael ei defnyddio yng ngweithgareddau clybiau a chymdeithasau. Tra bod rhai gweithgareddau Cymraeg penodol (e.e. gweithgareddau Menter Iaith Môn a Chôr Môn) yn cael eu cynnal yn y Gymraeg, roedd iaith gweithgareddau clybiau eraill (e.e. chwaraeon megis pêl-droed, pêl-rwyd a nofio) yn amrywio. Roedd rhai clybiau yn hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod eraill yn hyfforddi yn Saesneg. Roedd iaith yr hyfforddwr yn cael ei nodi fel ffactor oedd yn penderfynu cyfrwng iaith gweithgareddau chwaraeon yn ardal Llangefni.
- 6.129 Yn ôl aelodau'r grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn, roedd cyfleoedd ar gael o fewn y gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, nododd yr unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn, ac a oedd yn siaradwyr Cymraeg newydd, bod tuedd o fewn y gymuned i siaradwyr Cymraeg newid i ddefnyddio Saesneg wrth iddynt gymdeithasu neu gyrchu gwasanaethau. Fel y nododd un cyfranogwr; *“Everyone around me except my wife speaks Welsh, but they also speak English so even though the opportunities should be abundant, I've found that people defer to*

English if you attempt in your pidgin Welsh and that's the end of that opportunity." (Cyfranogwr o grŵp ffocws Unigolion sydd wedi symud i Ynys Môn)

- 6.130 Yn ogystal â hyn, cyfeiriwyd at y ffaith y gall dylanwad twristiaid a thwristiaeth ar Ynys Môn fod yn gyfrifol am hyn wrth i siaradwyr Cymraeg newid i'r Saesneg gydag ymwelwyr ar yr ynys. Nodwyd hefyd bod rhai sectorau penodol yn cael eu dominyddu gan ddarpariaeth yn Saesneg. Enghraifft o hynny oedd gweithgareddau awyr agored ar Ynys Môn.

Y Gymraeg mewn siopau a busnesau

- 6.131 Yn ôl grŵp ffocws Llangefni, roedd tystiolaeth bod cryn dipyn o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio o fewn y gweithle a byd busnes yn ardal Llangefni. Roedd cyfranogwyr y grŵp ffocws busnes yn defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â chwsmeriaid fel rhan naturiol o'u gwaith yn ardal Llangefni. Fel y nododd un o gyfranogwyr y grŵp ffocws busnes, *"I fod yn onest, mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd o'r busnes."* (Grŵp ffocws busnes, Llangefni)
- 6.132 Roedd y Gymraeg o fewn y byd gwaith hefyd yn thema a drafodwyd gan y grŵp ffocws pobl ifanc. Roedd gan nifer o'r bobl ifanc swyddi rhan amser gan gynnwys safleoedd priodas, bwyta, atyniadau i dwristiaid a chanolfan hamdden. Yn ôl cyfranogwyr y grŵp ffocws pobl ifanc roedd yna gred bod eu gallu i gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg yn cael ei werthfawrogi gan gwsmeriaid. Er hynny, nodwyd bod lleoliad, a natur eu cwsmeriaid, yn gallu dylanwadu ar eu defnydd iaith. Er enghraifft, roedd lleoliadau lle roedd nifer fawr o dwristiaid yn ei wneud yn fwy tebygol y byddent yn troi i'r Saesneg wrth ddod i gyswllt â chwsmeriaid, oni bai eu bod yn clywed cwsmer yn siarad Cymraeg gyntaf. Roedd un o'r bobl ifanc wedi gofyn am fathodyn iaith gwaith i ddynodi ei bod yn gallu siarad Cymraeg fel nad oedd yn colli'r cyfle i siarad Cymraeg. Roedd canfyddiad ymhlith y grŵp ffocws pobl ifanc mai siopau bach oedd y rhai mwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg, tra bod llai o Gymraeg i'w glywed gan staff mewn siopau cadwyn.
- 6.133 Roedd swyddi ar gyfer y dyfodol yn bwnc llosg ar gyfer y grŵp ffocws pobl ifanc Llangefni. Roedd yna ganfyddiad na fyddent yn medru dod o hyd i swydd o'u dewis yn lleol, ac felly byddent yn colli'r cyfle i siarad Cymraeg wrth symud i ffwrdd. Yn ôl cyfranogwyr y grŵp ffocws, roedd gwendidau yn y farchnad lafur leol yn fygythiad i'r Gymraeg. Roedd nifer o gyfranogwyr y grŵp yn awyddus i ddychwelyd i Sir Fôn ar ôl bod yn y brifysgol, tra bod eraill yn awyddus i brofi bywyd dinesig nad yw ar gael ar Ynys Môn. Fel y nododd un cyfranogwr, *"I ni, pan da ni'n symud i ffwrdd i fynd i'r Brifysgol, bydd rhaid ni aros yna i gael swydd, byddwn ni ddim yn gallu dod nôl a cael swydd yn fama yn be dan ni isio neud. Dyna'r unig beth sy'n rhwystredig rili."* (Grŵp ffocws pobl ifanc, Llangefni). Roedd yna hefyd ganfyddiad y gallai creu mwy o swyddi a mwy o gyfleoedd i ddenu siaradwyr di-Gymraeg ac y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar y Gymraeg.
- 6.134 Roedd cyfranogwyr y grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn hefyd yn dod i gyswllt a'r Gymraeg yn eu gwaith. Er enghraifft, nododd un cyfranogwr ei bod yn dod i gyswllt gyda ffermwyr Môn yn ei gwaith a bod cyfleoedd yma i ymarfer ei Chymraeg. Nododd cyfranogwr arall bod cyfleoedd i siarad y Gymraeg gyda chydweithwyr yn ei swydd bresennol ac mewn swyddi blaenorol gyda chyflogwyr sector breifat yr ardal.

Rhuglder a hyder siaradwyr Cymraeg

- 6.135 Yn ôl cyfranogwyr y grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn, roedd angen mynediad haws at wersi Cymraeg, a hefyd roedd angen i siaradwyr Cymraeg peidio â throï i'r Saesneg gyda siaradwyr Cymraeg newydd.
- 6.136 Roedd holl aelodau grŵp ffocws pobl ifanc Llangefni yn siarad Cymraeg yn rhugl. Gellid dadlau felly nad diffyg hyder neu ruglder yn eu gallu yn y Gymraeg oedd yn rhwystro eu defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, nodwyd bod yna arfer ymhlith siaradwyr Cymraeg i droï i'r Saesneg os oedd unigolyn arall yn llai hyderus neu rugl o ran eu sgiliau iaith Gymraeg. Cafwyd mewnwelediad pellach i hyn yn y grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn lle nododd rhai o gyfranogwyr y grŵp bod siaradwyr Cymraeg wedi ymddiheuro iddynt am siarad Cymraeg o'u blaenau ac wedi parhau â'r sgwrs yn Saesneg.
- 6.137 Nododd y bobl ifanc a gymerodd ran yn y grŵp ffocws eu bod yn chwilio am gliwiau ieithyddol (e.e. enw neu acen unigolyn) wrth iddynt geisio negodi pa iaith i ddefnyddio â nhw. Nodwyd hefyd fod rhai unigolion sy'n siarad Cymraeg yn siarad Saesneg â nhw oherwydd arferiad. Nododd y sawl a holwyd mai'r iaith yr ydych yn cychwyn siarad â rhywun gyntaf yw'r iaith y byddwch chi'n siarad â nhw o hyd. Nodwyd os ydych yn sefydlu patrwm o siarad Saesneg ei bod yn anodd troï'n ôl i ddefnyddio'r Gymraeg wedyn. Cefnogwyd y gosodiadau hyn ymhlith cyfranogwyr y grwpiau ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn a oedd yn nodi bod siaradwyr Cymraeg yn newid i siarad Saesneg â nhw. Cyfeiriwyd at hyn yn y grŵp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn, gan nodi ei bod yn anodd newid o siarad Saesneg i siarad Cymraeg gydag unigolion.
- 6.138 Nododd cyfranogwyr y grŵp ffocws busnes bod angen gwneud mwy i annog siaradwyr Cymraeg llai hyderus i wneud defnydd o'u Cymraeg, ac i beidio poeni am wneud camgymeriadau wrth ddefnyddio'r iaith. Yn ôl un cyfranogwr yn y grŵp ffocws busnes roedd angen defnyddio Cymraeg naturiol er mwyn annog ei defnydd. *"Ella fod na beryg imi siarad fy hun allan o'r job fan hyn, ac mae 'na le i Gymraeg safonol, ond iaith lafar naturiol sy'n bwysig, Cymraeg Llangefni os liciwch chi, neu mi fydd pobl ifanc yn cael eu dychryn."*
- 6.139 Roedd cywair iaith hefyd yn ffactor y cyfeiriwyd ato yn y grwpiau ffocws pobl ifanc ac unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn. Roedd un cyfranogwr ymhlith y bobl ifanc a holwyd yn nodi bod y Gymraeg ffurfiol a ddefnyddir yn yr ysgol yn debycach i Gymraeg de Cymru. Nodwyd bod hyn yn gallu ei roi o dan anfantais. Nododd un cyfranogwr o'r grwp ffocws unigolion oedd wedi symud i Ynys Môn ei fod yn cael mwy o drafferth deall sgysiaau mewn Cymraeg lleol, o'i gymharu â Chymraeg mwy safonol yr ysgol.

Defnydd o'r Gymraeg ar-lein

- 6.140 Yn ôl cyfranogwyr grwpiau ffocws Llangefni roedd unigolion yn defnyddio'r ddwy iaith ar y cyfryngau cymdeithasol, a hynny'n dibynnu gyda phwy maen nhw'n siarad. Wrth ystyried eu defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth, adroddodd pobl ifanc Llangefni am eu defnydd o Gymraeg wrth wylïo cynnwys digidol S4C. Yn ôl y bobl ifanc a holwyd, mae darpariaeth fwy cynhwysfawr ar gael ar gyfer plant ifanc, ond mae llai o ddarpariaeth ar gael ar gyfer pobl ifanc hŷn. Er enghraifft, nodwyd bod Cyw ar gyfer plant bach, ond dim ond Rownd a Rownd oedd ar gael ar gyfer eu hoedran hwythau. Er hynny, nodwyd eu bod yn hoff o gynnwys rhaglenni Hansh a gynhyrchir gan S4C. Fodd bynnag, nododd aelodau'r grŵp mai darpariaeth platfformau ffrydio megis Netflix oedd eu prif blatfform gwylïo cynnwys ar-lein, gan nad oedd llawer o raglenni S4C yn apelio.

Pandemig Covid-19 a'r Gymraeg

- 6.141 Nododd y busnesau a oedd wedi cymryd rhan yn y grwpiau ffocws bod cyfleoedd newydd wedi codi yn sgil y pandemig. I'r busnesau hyn, roedd y pandemig wedi darparu cyfleoedd newydd i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd a busnesau eraill. O ganlyniad, roedd cyfranogwyr y grŵp ffocws busnes yn nodi bod cyfleoedd wedi codi iddynt dyfu ei busnesau. Yn wahanol i ardaloedd eraill yr astudiaeth, nid oedd cyfranogwyr grŵp pobl ifanc Llangefni wedi crybwyll dylanwad negyddol Covid-19 ar eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol.

Sylwadau pobl ifanc am addysg ar Ynys Môn

- 6.142 Er mai holi am ddefnydd cymunedol pobl ifanc oedd amcan yr astudiaeth ymchwil hon, roedd yna dystiolaeth gyson o'r grwpiau ffocws bod pobl ifanc am adrodd ar eu profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y system addysg. Mae'r adran hon felly yn crynhoi themâu allweddol y grwpiau ffocws pobl ifanc wrth adrodd am eu defnydd o'r Gymraeg o fewn y system addysg. Penderfynwyd creu adran addysg ar wahân er mwyn parhau egwyddorion moeseg a diogelu data, ac er mwyn sicrhau natur anhysbys a chyfrinachol data'r cyfranogwyr ymchwil.
- 6.143 Fe bwysleisir mai sylwadau o grwpiau ffocws yr astudiaeth ymchwil yn unig a geir o fewn yr adran hon (pobl ifanc 16-18 oed) ac nad yw'n cynrychioli safbwyntiau pobl ifanc yn gyffredinol ar Ynys Môn. Ar ben hynny, mae'n bwysig cydnabod bod ysgolion Ynys Môn yn bodoli mewn cyd-destunau ieithyddol amrywiol o ran nifer a dwysedd siaradwyr Cymraeg ac felly'n profi heriau gwahanol o ran defnydd iaith. Roedd rhai pobl ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn perthyn i gymunedau gyda heriau penodol o ran eu defnydd o'r Gymraeg, felly nid yw pob thema ymchwil yn cynrychioli profiadau pob un cyfranogwr yn yr astudiaeth ymchwil. Yn ogystal, mae'n bwysig tanlinellu mai sylwadau gan ddisgyblion oedran uwchradd a geir yn yr adran hon ac nad yw'n cyfeirio at y sector addysg gynradd ar yr ynys.
- 6.144 Mae'r adran hon yn cynnwys y themâu canlynol; cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ysgol, astudio drwy gyfrwng y Saesneg, heriau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a rhuglder a hyder cyfranogwyr grwpiau ffocws yr astudiaeth.

Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ysgol

- 6.145 Yn ôl cyfranogwyr grwpiau ffocws pobl ifanc yr astudiaeth, roedd yna gyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu hysgolion. Roedd yna dystiolaeth bod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio ymhlith ffrindiau a chyd-ddisgyblion mewn cyd-destunau ffurfiol (gwarsi a sesiynau swyddogol) ac yn anffurfiol (defnydd cymdeithasol gyda ffrindiau e.e. ystafell chweched dosbarth). Er enghraifft, cafwyd tystiolaeth o un grŵp ffocws mai iaith ystafell y chweched dosbarth oedd y Gymraeg. Petai sgwrs fawr yn digwydd yno byddai'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, er bod rhai disgyblion yn cyfrannu yn Saesneg i'r drafodaeth.
- 6.146 Roedd yna dystiolaeth o'r grwpiau ffocws bod y cyfranogwyr yn astudio pynciau Lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd drwy gyfrwng y Saesneg. Roedd rhai pobl ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws am weld mwy o anogaeth a chyfleoedd i ddewis pynciau gwahanol drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddynt barhau gyda'u hastudiaethau pellach drwy'r Gymraeg. Roedd tystiolaeth bod rhai pobl ifanc yn poeni bod eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig wedi gwanhau dros amser. Nododd un person ifanc:

“Dw i’n definitely mynd allan o’r arfar! Achos pan o’n i’n ysgol fach do’n i ddim yn sgwennu fo, a wedyn pan des i i fama, o’n i’n siarad o’n iawn, ond do’n i ddim yn sgwennu fo. A wedyn nes i ddod yn dda [yn ysgrifennu]. A wan mae o jyst yn mynd, achos ni di pigo A-level subjects ni [a heb ddewis y Gymraeg].”

Astudio drwy gyfrwng y Saesneg

6.147 Un thema amlwg ymhlith sylwadau pobl ifanc yr astudiaeth oedd bod disgyblion yn dueddol o astudio nifer o’u pynciau drwy gyfrwng y Saesneg, er eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. O ganlyniad, yn ôl y sawl a holwyd, roedd nifer yn teimlo ei bod yn well ganddynt ysgrifennu yn Saesneg. Ond lle roeddent yn dilyn pwnc yn Saesneg, weithiau byddai’r athrawon yn egluro pethau yn Gymraeg fel eu bod yn deall. Yr oedd canfyddiad cyffredin hefyd ymhlith sawl aelod o’r grwpiau ffocws y byddai astudio Lefel A trwy gyfrwng y Saesneg hefyd yn hwyluso pethau wrth symud ymlaen i astudio ar lefel Addysg Uwch. *“So A-levels, dwi’n gneud nhw gyd yn Saesneg ‘wan achos bydd y gwaith yn y brifysgol gyd yn Saesneg.”*

Heriau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

6.148 Soniodd nifer o aelodau’r grwpiau ffocws bod diffyg adnoddau a therminoleg cyfrwng Cymraeg yn effeithio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael ar gyfer rhai pynciau o fewn yr ysgol. O ganlyniad i hynny, nododd y sawl a holwyd bod nifer o ddisgyblion yn penderfynu astudio eu pynciau drwy gyfrwng y Saesneg am fod yna ganfyddiad fod hynny’n ffordd “haws” o astudio’r pynciau. Roedd yna ganfyddiad ymhlith y sawl a holwyd bod dilyn pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn anoddach oherwydd diffyg adnoddau, ynghyd â’r angen i ddysgu termau llai cyfarwydd. Er enghraifft, roedd rhai yn cyflwyno gwaith Bagloriaeth yn Saesneg oherwydd prinder ffynonellau gwybodaeth ar y we. Fel y nododd un cyfranogwr wrth drafod y Fagloriaeth, *“...dwi’n sgwennu prosiect fi’n Saesneg wan ‘chos bod bob dim ar y we dwi’n chwilio mewn i, Saesneg dio.”*

Hyder a Rhuglder

6.149 Roedd rhuglder a hyder yn thema amlwg yn nefnydd iaith Gymraeg pobl ifanc o fewn y system addysg. Cafwyd tystiolaeth gan rai siaradwyr Cymraeg newydd, a oedd yn llai hyderus a rhugl, bod astudio Cymraeg fel pwnc ysgol wedi sbarduno defnydd iaith amlycach o’r Gymraeg. Soniodd aelodau’r grŵp ffocws bod y Gymraeg yn bwysicach iddynt erbyn iddynt gyrraedd oedran chweched dosbarth. Er hynny, fe nodwyd bod angen cyd-destun a strwythur ffurfiol y system addysg, ac anogaeth, er mwyn iddynt ddefnyddio’r Gymraeg yn fwy aml. Un enghraifft benodol gan y sampl ymchwil oedd bod sefyll arholiad llafar Cymraeg Lefel A wedi cynnig cyd-destun addas i’r cyfranogwyr ddefnyddio ac ‘ymarfer’ eu sgiliau Cymraeg llafar y tu allan i wersi ffurfiol yr ysgol. Nododd un ymatebydd bod yr arholiad wedi “rhoi caniatâd” neu reswm penodol i’r pobl ifanc ddefnyddio’r Gymraeg tu allan i’r gwersi, a’u bod wedi mwynhau’r profiad yn fawr. Roedd aelodau’r sampl yn cydnabod bod eu rhuglder a’u hyder yn y Gymraeg wedi cynyddu o ddilyn Cymraeg fel pwnc Lefel A.

6.150 Roedd rhai cyfranogwyr yn bryderus ynghylch eu gallu i gynnal eu hyder a’u rhuglder yn y Gymraeg yn yr hirdymor. Nododd rai aelodau na fyddent yn defnyddio’r Gymraeg cymaint ar ôl gadael yr ysgol oherwydd nad oedd ganddynt hyder i ysgrifennu yn Gymraeg. Dyma sylw gan un cyfranogwr ymchwil: *“dwi ddim yn dda am sgwennu pethau yn y Gymraeg. So dwi’m yn meddwl na’i ddim byd hefo fo ar ôl gorffen yn yr ysgol.”*

7. Trafodaeth ar brif ganlyniadau'r ymchwil

- 7.1 Yn yr adran hon, byddwn yn cynnig trafodaeth ar brif themâu'r astudiaeth ymchwil, Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn. Mae data'r astudiaeth hon yn darparu cipolwg ar ddefnydd iaith ar Ynys Môn yn ystod un cyfnod penodol sef Haf 2022. Bydd y drafodaeth yn sail i gasgliadau ac argymhellion yr astudiaeth ymchwil hon.
- 7.2 Cafwyd tystiolaeth o'r astudiaeth ymchwil bod cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gwahanol gymunedau'r astudiaeth. Roedd y Gymraeg yn iaith naturiol o ddydd i ddydd mewn rhai cymunedau ond roedd tystiolaeth o gymunedau lle roedd llai o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio, a thuedd i ddefnyddio Saesneg mewn rhyngweithiadau cymunedol (e.e. siopau a busnesau) a gweithgareddau cymunedol (e.e. clybiau hamdden).⁷

Gweithgareddau Cymunedol

- 7.3 Amlygai data'r astudiaeth ymchwil bod yna gyfleoedd gwahanol, yn dibynnu ar y gymuned, i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg ar Ynys Môn. Cafwyd tystiolaeth o gymunedau lle roedd nifer o weithgareddau amrywiol i bob oedran yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol. Er hynny, nid oedd hyn yn wir am bob cymuned o fewn yr astudiaeth. Er hynny, roedd yna werthfawrogiad o'r cyfleoedd a oedd ar gael yn y cymunedau hyn lle roedd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn brin, gyda chyfranogwyr yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a ddarparwyd iddynt, gan gynnwys rhai a gyllidir ac a drefnir gan gyrrff cyhoeddus a'u partneriaid (e.e. Menter Iaith Môn). Nodwyd hefyd bod y gweithle yn enghraifft o sffêr defnydd iaith bwysig, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, lle roedd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol.

Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio o fewn cymunedau Ynys Môn ond mae yna dystiolaeth bod tipyn o Saesneg hefyd yn cael ei ddefnyddio yn gymunedol

- 7.4 Yn gyffredinol mae'r astudiaeth yn amlygu bod y Gymraeg yn cael ei siarad gan ganran sylweddol o'r ymatebwyr a chyfranogwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth ac roedd tystiolaeth eu bod yn defnyddio'r Gymraeg mewn nifer o sefyllfaoedd amrywiol o ddydd i ddydd ar yr ynys; ond hefyd bod yna heriau i'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob un cyd-destun. Hefyd, yn ôl y sawl a holwyd cafwyd tystiolaeth bod tipyn o Saesneg hefyd yn cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd ar Ynys Môn. Mae hynny'n awgrymu bod defnydd iaith ar Ynys Môn yn digwydd o fewn cyd-destun defnydd iaith dwyieithog, cymhleth.

⁷ Mae'r clybiau hamdden yn cynrychioli ystod o ddarparwyr amrywiol o fewn sectorau gwahanol.

Mae data'r astudiaeth hon yn amlygu'r sfferau lle defnyddir yr iaith Gymraeg ar Ynys Môn.

- 7.5 Y sfferau lle roedd ymatebwyr yr arolwg yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg oedd y teulu, y gweithle a gyda ffrindiau.
- 7.6 Roedd yr astudiaeth hefyd yn tynnu sylw at y sfferau defnydd iaith hynny lle nad oedd yr ymatebwyr yn defnyddio neu'n clywed llawer o Gymraeg. Yn yr achosion hyn, tynnwyd sylw at faes hamdden, gwirfoddoli a siopa. Cefnogwyd hyn â data ansoddol yr arolwg sy'n adrodd bod yna ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn siopau, busnesau ac wrth gyrchu gwasanaethau a bod hynny'n atal y sawl a holwyd rhag defnyddio mwy o Gymraeg ar yr ynys. Roedd y duedd hon yn amlwg mewn rhai grwpiau ffocws, lle roedd gofid am ddiffyg hyfforddwy clybiau hamdden a oedd yn hyfforddi yn Gymraeg. Wrth ystyried busnesau, roedd yna ganfyddiad hefyd mai Saesneg oedd iaith ddiofyn siopau a busnesau mewn nifer o achosion. Awgryma hyn bod angen ymyriadau penodol yn y meysydd hyn i annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- 7.7 Mae data'r astudiaeth hon yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn defnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau gwahanol. Er hynny, awgryma'r data bod y siaradwyr rhugl yn defnyddio cryn dipyn o Saesneg mewn sfferau defnydd iaith amrywiol. Awgryma hyn fodolaeth sfferau defnydd iaith dwyieithog mewn mannau ar Ynys Môn.

Arferion a shifft ieithyddol

- 7.8 Roedd tystiolaeth o ddata ansoddol yr arolwg yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg amrywiol yn tueddu i ddefnyddio Saesneg yn fwy aml yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Roedd yna ganfyddiad bod arferion ieithyddol dydd i ddydd wedi newid (e.e. iaith cychwyn sgwrs) gan nad oedd unigolion bob tro'n sicr o gefndir ieithyddol unigolion. Mae hynny'n thema arwyddocaol sydd yn dangos o bosib bod yna elfennau o shifft ieithyddol yn bodoli o fewn cymunedau Ynys Môn.
- 7.9 Thema amlwg o fewn yr astudiaeth ymchwil oedd arferion ieithyddol y sawl a holwyd. Patrwm clir a ddaeth i'r amlwg o'r sampl ymchwil oedd y duedd ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Saesneg gyda siaradwyr Cymraeg newydd a'r sawl sy'n dysgu siarad Cymraeg. Roedd yna ganfyddiad bod yr arfer hwn yn cyfyngu ar y cyfleoedd a oedd gan unigolion i feithrin eu sgiliau yn Gymraeg. Cafwyd tystiolaeth o'r rhwystredigaeth a brofodd siaradwyr Cymraeg newydd wrth geisio cychwyn sgwrsiau yn Gymraeg o fewn eu cymunedau pan oedd siaradwyr Cymraeg yn aml yn eu hateb yn y Saesneg. Cefnogwyd y thema hon gan grwpiau ffocws unigolion a oedd wedi symud i Ynys Môn wrth iddynt nodi bod rhai siaradwyr Cymraeg wedi gwneud sylw am eu hacenion wrth iddynt siarad Cymraeg. Gellir dadlau bod angen cefnogi siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg newydd wrth iddynt ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn gymunedol.
- 7.10 Thema arall a godwyd oedd y gofid ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl am safon eu Cymraeg, gan eu bod yn defnyddio Cymraeg tafodieithol. Roedd hyn yn ofid hefyd ymhlith busnesau wrth iddynt sôn am gywirdeb ieithyddol ar ddeunydd marchnata ysgrifenedig. Gellir dadlau felly bod angen gwneud mwy i hyrwyddo mathau amrywiol o Gymraeg, a chodi hyder siaradwyr Cymraeg ym Môn. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod tystiolaeth o'r astudiaeth hon yn awgrymu bod y gweithle yn sffêr defnydd iaith dyddiol pwysig ar Ynys Môn.

Rhuglder yw un o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd cymunedol o iaith o fewn yr astudiaeth ymchwil

- 7.11 Un o brif ganfyddiadau'r arolwg oedd nad oedd yr ymatebwyr oedd yn "gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg" yn gwneud defnydd o'r Gymraeg mewn nifer o sfferau defnydd iaith amrywiol. Mae data'r arolwg yn awgrymu nad oedd 38.7 y cant ohonynt yn siarad unrhyw Gymraeg gyda'u ffrindiau, tra bod 48.4 y cant yn nodi mai dim ond ychydig bach o Gymraeg yr oeddent yn ei ddefnyddio gyda hwy. Roedd defnydd o'r Gymraeg gan unigolion "sy'n siarad cryn dipyn o Gymraeg" o fewn y system addysg ac ym maes hamdden hefyd yn gymharol isel⁸. Gellir dadlau bod hyn yn ganlyniad arwyddocaol o ystyried fod gan yr unigolion hyn lefelau uchel o ruglder, ond nad oeddent yn gwneud defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol. O ganlyniad, gellir dadlau mae rhuglder yw'r prif ffactor sydd yn dylanwadu ar ddefnydd cymunedol o'r iaith ar Ynys Môn
- 7.12 Amlygai'r data bod yna berthynas amlwg rhwng yr amser yr oedd ymatebwyr wedi byw ar Ynys Môn a'u rhuglder yn y Gymraeg. Mae patrymau mewnfudo ac allfudo hefyd yn cynnig her i'r Gymraeg. Mae data'r arolwg yn awgrymu bod unigolion nad oeddent yn enedigol o Ynys Môn yn llai tebygol o fod yn rhugl eu Cymraeg. Os oedd ymatebwyr wedi byw ar Ynys Môn erioed roedd canran uwch yn siarad Cymraeg yn rhugl (83.1 y cant). Po leiaf o amser yr oedd unigolion wedi byw ar Ynys Môn, lleiaf tebygol oeddent o allu siarad Cymraeg yn rhugl, gyda dim ond 23.5 y cant o ymatebwyr a oedd wedi symud i Ynys Môn yn fwy diweddar yn siarad Cymraeg yn rhugl. Cefnogwyd y data hyn o fewn grwpiau ffofws unigolion a oedd wedi symud i Ynys Môn hefyd gan i nifer ohonynt nodi'r diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gan ei bod yn arfer gan siaradwyr Cymraeg siarad Saesneg gyda hwy. Amlygai hyn yr her a fodola wrth gynnal y Gymraeg ar Ynys Môn, a'r rôl allweddol sydd gan y system addysg ac asiantaethau dysgu'r Gymraeg wrth iddynt gefnogi unigolion a theuluoedd sydd yn ymgartrefu ar yr ynys i ddysgu'r Gymraeg.

Y System Addysg

- 7.13 Roedd tystiolaeth o'r arolwg hefyd yn awgrymu bod nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg ifanc wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol neu'r coleg, yn hytrach na'r cartref. Amlygai hyn bwysigrwydd y system addysg wrth drosglwyddo iaith a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Er hynny, roedd yna dystiolaeth yn yr astudiaeth hon bod heriau yn wynebu pobl ifanc wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dewis a'u defnydd iaith o fewn y system addysg. Yn benodol, cafwyd tystiolaeth gan y sawl a holwyd bod yna duedd i siaradwyr Cymraeg (e.e. disgyblion oedran chweched dosbarth) astudio trwy gyfrwng y Saesneg mewn rhai ysgolion ar Ynys Môn. Un o ganlyniadau'r arolwg ymchwil oedd bod tystiolaeth o ddefnydd amlwg o Saesneg o fewn y system addysg ar Ynys Môn. Mae'n bwysig nodi bod data'r arolwg yn cynnwys data hanesyddol am y system addysg sydd hefyd yn awgrymu bod defnydd helaeth o'r Saesneg wedi bod dros y blynyddoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i siaradwyr newydd, neu unigolion sy'n siarad cryn dipyn o Gymraeg, ond nad ydynt yn eu hystyried ei hunain yn rhugl.
- 7.14 Gellir dadlau bod angen parhau i gymryd camau pellach i gefnogi disgyblion, athrawon ac arweinyddion ysgolion i wneud dewisiadau o blaid y Gymraeg, yn benodol ym mlynnyddoedd hŷn yr ysgol uwchradd. Er hynny, mae'n bwysig cydnabod cefndiroedd disgyblion ac athrawon o fewn y system addysg a'u sgiliau ieithyddol amrywiol.

⁸ Mae hyn yn cynnwys data hanesyddol gan ymatebwyr ar draws y grwpiau oedran ac felly nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu sefyllfa gyfredol addysg ar Ynys Môn.

- 7.15 Roedd data ansoddol yr arolwg hefyd yn cyfeirio at yr heriau strwythurol a wyneba Ynys Môn, gan gynnwys prinder swyddi a phrisiau tai. Nododd ymatebwyr yr arolwg bod mewnfudo yn destun pwysig i'w gydnabod ar yr ynys. Cyfeiriwyd at y ffaith bod y boblogaeth hŷn a oedd yn symud i Ynys Môn yn effeithio ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson o fewn y gymuned. Roedd ail gartrefi, tai haf a thwristiaeth yn heriau i'r Gymraeg yn ôl ymatebwyr yr arolwg ar-lein. Canfyddiad rhai ymatebwyr oedd bod ail gartrefi yn effeithio ar gyfrwng iaith cymunedau'r ynys. Soniodd rhai o ymatebwyr yr arolwg bod twristiaeth yn medru effeithio ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned gan fod iaith y gymuned yn newid i'r Saesneg tra bod twristiaid yn ymweld. Ymhlith y bobl ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws gwelwyd naratif bod angen i bobl ifanc adael yr ynys i chwilio am gyfleoedd swydd ac addysg uwch.

8. Casgliadau ac Argymhellion yr Astudiaeth Ymchwil

- 8.1 Nod yr astudiaeth ymchwil hon oedd astudio sefyllfa gyfredol yr iaith Gymraeg ar Ynys Môn gan ffocysu ar yr amcanion ymchwil isod:
- i. Cynnig dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn ôl defnydd iaith, y gweithgareddau cymunedol sydd ar gael drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith
 - ii. Cydnabod a gwahaniaethu rhwng y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y cymunedau ymchwil
 - iii. Deall unrhyw rwystrau posib sy'n atal defnydd o'r iaith o fewn y cymunedau ymchwil
 - iv. Cynnig argymhellion i Fforwm Iaith Ynys Môn a'r holl bartneriaid megis Menter Iaith Môn a Chyngor Môn
- 8.2 Cwestiynau ymchwil yr astudiaeth hon oedd y canlynol a byddwn yn craffu ar y rhain o fewn y drafodaeth:
- i. Ydy'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned yn ddigon hygyrch ac a oes gan bawb fynediad atynt?
 - ii. Oes yna unigolion o gefndiroedd penodol sydd heb fynediad i weithgareddau cymunedol cyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog?
 - iii. Oes yna gyfleoedd i leoliadau neu grwpiau cymunedol weithio fel mentoriaid cymunedol iaith Gymraeg i leoliadau neu grwpiau cymunedol eraill?
- 8.3 Mae tystiolaeth o'r astudiaeth ymchwil hon yn awgrymu bod nifer o ffactorau yn effeithio ar allu a defnydd iaith yn gymunedol ar Ynys Môn. Gallwn ddadlau bod y gymuned yn groesffordd ieithyddol (Hodges a Prys, 2019:1) ar Ynys Môn sy'n cynnwys dylanwadau gan feysydd eraill fel addysg, y teulu a'r gweithle. Mae dylanwadau'r sfferau trosglwyddo a defnydd iaith eraill yn dod i'r amlwg o fewn cymunedau Ynys Môn ac yn amlgu'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth archwilio ymddygiad ieithyddol o fewn y gymuned.
- 8.4 Dengys data'r astudiaeth ymchwil bod ffactorau megis sffêr defnydd iaith, gallu, hyder a rhuglder unigolion a dylanwadau amrywiol cymunedau yn effeithio ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol ar Ynys Môn. Cafwyd tystiolaeth gan rai a holwyd yn yr astudiaeth ymchwil (data ansoddol yr arolwg a data'r grwpiau ffocws) ei bod yn arferol defnyddio'r Saesneg mewn nifer o weithgareddau cymunedol a rhyngweithiadau o ddydd i ddydd .
- 8.5 Mae rhuglder, yn benodol, yn thema allweddol sy'n dylanwadu ar ddefnydd cymunedol o'r iaith ar Ynys Môn. Ymddengys bod angen cynlluniau a chydweithio traws sefydliadol ym meysydd addysg, y gweithle, siopau a maes hamdden er mwyn meithrin a chynnal rhuglder. Mae'n bwysig cydnabod cefndiroedd ieithyddol amrywiol o fewn yr astudiaeth hon. Yn benodol, mae siaradwyr Gymraeg llai hyderus a llai rhugl angen anogaeth, cefnogaeth a chydabyddiaeth o'u sgiliau Gymraeg er mwyn iddynt allu gwneud y defnydd mwyaf o'r Gymraeg o fewn gweithgareddau a rhyngweithiadau cymunedol o ddydd i ddydd. Enghraifft amlwg o'r astudiaeth ymchwil hon yw unigolion sydd wedi symud i fyw i Ynys Môn. Mae angen chwilio am gynlluniau pellach, hirdymor, sy'n cyflwyno'r Gymraeg o fewn gwahanol gyd-destunau i'r unigolion yma er mwyn ceisio normaleiddio'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg ar Ynys Môn. Er hynny, mae'n bwysig nodi nad

ar chwarae bach mae datrys rhai o'r heriau hyn, sydd yn rhai strwythurol ac economaidd, ac yn aml y tu allan i reolaeth cynllunwyr ieithyddol cymunedol.

- 8.6 Ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl, mae hefyd angen ystyried hyder, ond yn yr achos yma, hyder i ddefnyddio eu Cymraeg mewn rhyngweithiadau cymdeithasol amrywiol ar Ynys Môn. Mae hyn hefyd yn cynnwys yr hyder i siarad â dysgwyr yn Gymraeg, yn ogystal â throsglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf. Yn fwy cyffredinol, gellir dadlau bod angen gwneud mwy i hyrwyddo gwerth y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Y nod fyddai meithrin patrymau defnydd a throsglwyddo iaith a fyddai'n arwain at ddilyniant ieithyddol o'r aelwyd i'r ysgol, i'r gweithle, a'r gymdeithas ehangach (maes hamdden a siopa a busnesau). Mae'r astudiaeth hon yn amlygu'r angen i barhau i ddatblygu cynlluniau sy'n targedu defnydd iaith o fewn y sfferau allweddol hyn, fel ffordd o adeiladu ar y pilerau defnydd iaith allweddol hyn mewn modd holistig sy'n cydnabod cymhlethdod a natur aml-haenog defnydd cymunedol o iaith.
- 8.7 Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod gan y tair lefel o gynllunio ieithyddol sef y macro, meso a micro (Baldauf 2006) rôl allweddol wrth lunio strategaethau cynllunio ieithyddol cymunedol ar Ynys Môn. Mae'n bwysig cydnabod yr angen i gynnal cydweithio pellach rhwng rhanddeiliaid allweddol megis Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Menter Iaith Môn, ysgolion y sir ac actorion cymunedol o fewn cymunedau gwahanol ar yr ynys. Y nod yw cynnal a datblygu sfferau defnydd iaith amlwg ar Ynys Môn (e.e. y teulu, y gymuned, addysg a'r gweithle) lle mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn naturiol. Mae'n bwysig ystyried llwybrau dilyniant ieithyddol rhwng y sfferau defnydd iaith sydd yn dyngedfennol am eu bod yn cynnal a datblygu sgiliau unigolion ac yn cefnogi'r canfyddiad bod y Gymraeg yn iaith hyfyw i holl drigolion Môn.

Argymhellion

1. Ystyried sut mae'r sfferau defnydd iaith hyn yn cysylltu â'i gilydd i ddylanwadu ar ddefnydd iaith cymunedol o ddydd i ddydd (e.e. y teulu, addysg y gweithle).

2. Creu cynlluniau i fagu rhuglder a hyder unigolion sy'n gallu siarad 'cryn dipyn o Gymraeg' ond nad ydynt yn gwneud defnydd helaeth ohoni, yn enwedig o fewn sfferau defnydd iaith penodol, gan gynnwys y teulu, addysg, gweithle, siopau a chlybiau hamdden.

3. Parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn siopau a busnesau gan ddefnyddio arwyddion sy'n annog a chroesawu'r defnydd o'r Gymraeg (e.e. bathodynau iaith).

4. Creu cynlluniau i geisio dylanwadu ar glybiau a hyfforddwyr gweithgareddau hamdden cymunedol i ystyried y Gymraeg fel rhan o'u gweithgareddau.

5. Blaenoriaethu cynlluniau sy'n annog siaradwyr Cymraeg rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg gydag unigolion sy'n llai rhugl yn y Gymraeg.

6. Parhau â chynlluniau i annog disgyblion ysgol i astudio pynciau Lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg rhugl a llai rhugl.

7. Cynnal gwaith pellach wrth gyfeirio disgyblion ac athrawon at adnoddau addysgol Cymraeg sydd ar gael iddynt (e.e. Porth Termau ac adnoddau pwnc-benodol).

8. Pwysleisio gwerth y Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd drwy annog partneriaethau rhwng ysgolion a gweithfeydd lleol ar Ynys Môn (e.e. pobl ifanc yn bencampwyr iaith mewn busnesau lleol).

9. Cyfeirio busnesau at wasanaethau sydd ar gael iddynt gan randdeiliaid allweddol (e.e. gwasanaethau cyfieithu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol).

10. Creu cynlluniau pellach i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith gymunedol ymhlith twristiaid ac unigolion sydd wedi symud i'r ardal.

9. Llyfryddiaeth

Cooper, R. L. (1989). *Language planning and social change*. Cambridge: University Press.

Fishman, J. A. (1965). Who Speaks What Language to Whom and When? *La Linguistique* Vol. 1, Fasc. 2 (1965), tt. 67-88.

Hodges, R. a Prys, C. (2019). The community as a language planning crossroads: macro and micro language planning in communities in Wales. *Current Issues in Language Planning* 20(3). 207–225. doi: 10.1080/14664208.2018.1495370.

Kaplan, R. a R. B. Baldauf. (1997). *Language planning from practice to theory*. Clevedon England: Multilingual Matters.

Prys, C. a Hodges, Rh. (2021) 'Cynllunio Ieithyddol a Pholisi Iaith' yn S. Cooper a L. Arman (2021) Cyflwyniad i Ieithyddiaeth, Prifysgol Bangor a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol tt 218-224.
<https://www.porth.ac.uk/cy/collection/cyflwyniad-i-ieithyddiaeth>

10. Atodiadau

Atodiad 1: Copi o'r Holiadur Ar-lein (cyfrwng Cymraeg)

Atodiad 2: Copi o'r Holiadur Ar-lein (cyfrwng Saesneg)

Atodiad 3: Grŵp Ffocws Pobl ifanc

Atodiad 4: Grŵp Ffocws Pobl Fusnes

Atodiad 5: Grŵp Ffocws Unigolion sydd wedi symud i Ynys Môn o fewn yr ugain mlynedd diwethaf

Atodiad 6: Enghraifft o drydar Menter Iaith Môn er mwyn recriwtio ymatebwyr arolwg ar-lein

Atodiad 7: Enghraifft o drydar Cyngor Sir Ynys Môn er mwyn recriwtio ymatebwyr arolwg ar-lein

Atodiad 1: Copi o'r Arolwg Ar-lein (cyfrwng Cymraeg)



Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn

Arolwg Ar-Lein

'Rydym yn gweithio i Brifysgol Bangor ar brosiect ymchwil sy'n edrych ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eich cymunedau ar Ynys Môn. Cyllidir y prosiect hwn gan y Gronfa Adfywio Cymunedol ar ran Cyngor Ynys Môn a Menter Iaith Môn. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol a'r sylwadau yn anhysbys ac yn dilyn holl egwyddorion GDPR. Nid ydym yn gofyn am eich enw nac unrhyw wybodaeth gyswilt. Mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed neu hŷn i ateb yr arolwg. Os am wybodaeth ychwanegol am yr astudiaeth cysylltwch â Dr Rhian Hodges: r.s.hodges@bangor.ac.uk

Drwy gwblhau'r arolwg hwn rwyf yn cydsynio i fy nata gael ei ddefnyddio at ddibenion yr astudiaeth hon.

AMDANOCH CHI

A ydych yn byw neu gydag ail gartref ar Ynys Môn? Ydw Nac ydw

Os na, symud i'r diwedd.

Ai dyma eich prif gartref? Ydy Nac ydy

Ble ar Ynys Môn ydych chi'n byw? (Enw tref/pentref) _____

Nodwch 4 digid cyntaf eich côd-post _____

A ydych chi 16 mlwydd oed neu'n hŷn? Ydw Nac ydw

Os na, symud i'r diwedd.

Proffil Cefndirol

1. Rhywedd:

- Benyw Gwryw
Anneuaidd Gwell gen i beidio â dweud

2. Oedran:

- 16-24
25-34
35-44
45-54
55-64
65-74
75+

3. A oes gennych chi blant o dan 18 oed? Oes Nac oes

4. Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

- Cymro / Cymraes
Sais / Saesnes
Albanwr / Albanes
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
Prydeiniwr / Prydeinwraig
Arall, nodwch _____

5. Beth yw eich grŵp ethnig?

- Arabaid
Asiaidd
Du (Caribiaidd neu Affricanaidd)
Grwpiau Cymysg neu Amlethnig
Gwyn
Grŵp ethnig arall

6. Ers pryd ydych chi wedi byw neu bod ag ail gartref ar Ynys Môn?

- Wedi byw ar Ynys Môn erioed
- 3 mlynedd neu lai
- 4 – 9 mlynedd
- 10 - 19 mlynedd
- 20 mlynedd neu fwy

7. Os ydych chi wedi symud i Ynys Môn, beth oedd eich rhesymau dros symud i'r ardal hon? *(Os ydych yn enedigol o Ynys Môn gadewch yn wag ac ewch i gwestiwn 8).*

8. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich sefyllfa orau:

- Cyflogedig
- Hunangyflogedig
- Ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth
- Wedi ymddeol
- Anabl neu yn sâl am gyfnod hir
- Astudio
- Gofalu am y cartref neu am y teulu
- Arall

9. Os ydych chi'n gyflogedig, hunangyflogedig, neu ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth, beth yw teitl eich swydd? e.e. gweithiwr siop, athro ysgol gynradd. *(Os nad ydych yn gyflogedig neu hunangyflogedig, ewch ymlaen i gwestiwn 12).*

10. Beth yw prif weithgarwch eich sefydliad, busnes neu waith ar eich liwt eich hun? e.e. gwerthu dillad, addysg gynradd, gwasanaeth sifil, llywodraeth leol

11. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich sefyllfa orau?

- Rwy'n gweithio o adref
- Rwy'n gweithio mewn gweithle, nad yw'n gartref i mi
- Rwy'n gweithio o adref ac mewn gweithle

12. Oes gennych gymhwyster ar lefel gradd neu uwch?

Oes

Nac oes

Y Gymraeg

13. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?

Rwy'n rhugl yn Gymraeg

Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg

Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig

Rwy'n gallu dweud ychydig eiriau yn unig

Dw i ddim yn siarad Cymraeg

Os ddim yn siarad Cymraeg, symud ymlaen i Q.17.

SIARAD CYMRAEG

14. Ble yn *bennaf* dysgoch chi siarad Cymraeg?

Gartref

Ysgol/ Coleg/ Prifysgol

Yn y gwaith

Cymraeg i Oedolion

Wrth siarad gyda phobl sy'n byw o fy nghwmpas

15. Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg?

Bob dydd

Bob wythnos

Llai aml

Byth

16. Faint o Gymraeg ydych **chi'n** ei ddefnyddio yn sefyllfaoedd canlynol?

Dim o gwbl; Ychydig iawn; Canolig, Cryn dipyn, Llawer iawn, Dim yn berthnasol

O fewn eich teulu sy'n byw ar Ynys Môn	Dim o gwbl					Llawer iawn	D/B
	1	2	3	4	5		
Yn eich ysgol ar Ynys Môn (naill ai fel disgybl neu riant/gwarcheidwad)	Dim o gwbl					Llawer iawn	
	1	2	3	4	5		

Gyda ffrindiau sy'n byw ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Gyda chymdogion	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth siopa ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth dderbyn gwasanaethau'r Cyngor ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Yn y feddygfa ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth wirfoddoli ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth addoli ar Ynys Môn (e.e. capel, eglwys)	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
O fewn clybiau hamdden a chwaraeon ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Yn eich gwaith ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Yn eich defnydd cyffredinol o'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter, Instagram)	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth ymwneud a grwpiau cymunedol/busnesau ar-lein sy'n gysylltiedig â Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	

CLYWED CYMRAEG

17. Faint o Gymraeg ydych **chi'n** clywed yn y sefyllfaoedd canlynol?

Dim o gwbl; Ychydig iawn; Canolig, Cryn dipyn, Llawer iawn, Dim yn berthnasol

O fewn eich teulu sy'n byw ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	D/B
Yn eich ysgol ar Ynys Môn (naill ai fel disgybl neu riant/gwarcheidwad)	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Yng nghwmni ffrindiau sy'n byw yn Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Yng nghwmni cymdogion	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth siopa ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth dderbyn gwasanaethau'r Cyngor ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	

Yn y feddygfa ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth wirfoddoli ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth addoli ar Ynys Môn (e.e. capel, eglwys)	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
O fewn clybiau hamdden a chwaraeon ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Yn eich gwaith ar Ynys Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Yn eich defnydd cyffredinol o'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter, Instagram)	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	
Wrth ymwneud a grwpiau cymunedol/busnesau ar-lein sy'n gysylltiedig â Môn	Dim o gwbl 1 2 3 4 5	Llawer iawn	

18. Wrth feddwl am y mis diwethaf pa weithgareddau cymdeithasol (e.e. clybiau, cymdeithasau a digwyddiadau cyhoeddus, gan gynnwys rhai ar-lein) ydych chi wedi bod iddynt ar Ynys Môn? Rhowch hyd at dair enghraifft. (Cyfleoedd cymdeithasol wedi eu trefnu, yn hytrach na chwrrd â ffrindiau ac ymweld â'r dafarn, er enghraifft). Gadewch yn wag os nad ydych chi wedi mynychu gweithgaredd cymdeithasol yn y mis diwethaf ac ewch i gwestiwn 20.

--

19. Pa iaith/ ieithoedd ddefnyddioch chi o fewn y gweithgareddau cymdeithasol hyn? (*Ticiwch un blwch ar gyfer pob gweithgaredd*)

Gweithgareddau	Cymraeg yn unig	Mwy o'r Gymraeg na'r Saesneg	Y ddwy iaith yn gyfartal	Mwy o Saesneg na'r Gymraeg	Saesneg yn unig	Arall	Ddim yn cofio
Gweithgaredd 1							
Gweithgaredd 2							
Gweithgaredd 3							

AGWEDDAU TUAG AT Y GYMRAEG

20. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Cytuno'n gryf, Tueddu i gytuno, Dim yn cytuno, Tueddu i anghytuno, Anghytuno'n llwyr, Dim yn berthnasol

Mae siarad Cymraeg yn rhan bwysig o bwy ydwi i	Cytuno'n gryf 5 4 3 2 1	Anghytuno'n llwyr 1	D/B
Mae gen i ddigonedd o gyfleoedd i siarad/clywed y Gymraeg	Cytuno'n gryf 5 4 3 2 1	Anghytuno'n llwyr 1	
Fyddwn i ddim yn mynd allan o'm ffordd i ofyn am wasanaeth yn y Gymraeg	Cytuno'n gryf 5 4 3 2 1	Anghytuno'n llwyr 1	
Os oes gan nwyddau enwau neu frandio Cymraeg, rwy'n fwy tebygol o'u prynu	Cytuno'n gryf 5 4 3 2 1	Anghytuno'n llwyr 1	

21. Beth sy'n eich atal chi rhag defnyddio mwy o Gymraeg ar Ynys Môn?

22. Beth yw'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ar Ynys Môn?

23. Pa fath o raglenni neu weithgareddau hoffech chi eu gweld yn cael eu datblygu i hybu'r Gymraeg ar Fôn?

Diolch i chi am ateb yr holiadur. Mae eich cyfraniad yn bwysig iawn i'r prosiect ymchwil.

Atodiad 2: Copi o Arolwg Ar-lein (cyfrwng Saesneg)



Welsh language use on Anglesey

Online Questionnaire

We're working for Bangor University on a research project looking at the opportunities to use the Welsh language within your communities on Anglesey. This project is funded by the Community Renewal Fund on behalf of Isle of Anglesey Council and Menter Iaith Môn. All information provided will be confidential and comments will remain anonymous and will adhere to all GDPR principles. We will not ask you to provide your name and contact details. You must be 16 years of age or over to answer this survey. If you require further information about the study, please contact Dr Rhian Hodges: r.s.hodges@bangor.ac.uk

By completing this survey I give consent for my data to be used for the purposes of this study.

ABOUT YOU

Do you live or have a second home on Anglesey? Yes No

If no, move to the end.

Is this your main home? Yes No

Where do you live on Anglesey? (Name of town/village) _____

Note the first 4 digits of your postcode _____

Are you 16 years of age or older? Yes No

If no, move to the end.

BACKGROUND PROFILE

1. Gender:

- Female Male
Non-binary Prefer not to say

2. Age:

- 16-25
25-34
35-44
45-54
55-64
65-74
75+

3. Do you have children under 18 years of age? Yes No

4. How would you describe your national identity?

- Welsh
English
Scottish
Northern Irish
British
Other

5. What is your ethnic group?

- Arab
Asian
Black (Caribbean or African)
Mixed or multiple ethnic groups
White
Other ethnic group

6. How long have you lived or had a second home on Anglesey?

- I've always lived on Anglesey
- 3 years or less
- 4 – 9 years
- 10 - 19 years
- 20 years or more

7. If you have moved to Anglesey, what were your reasons for moving to this area? *(If you are from Anglesey, leave blank and move on to question 8).*

8. Which of the following best describes your situation:

- Employed
- Self-employed
- On maternity or paternity leave
- Retired
- Long-term sick or disabled
- Studying
- Looking after home or family
- Other

9. If you are employed, self-employed or on maternity/paternity leave, what is your job title? e.g. shop worker, primary school teacher. *(If you are not employed, self-employed or on maternity/paternity leave, leave blank and move on to question 12).*

10. What is the main activity of your organization, business or freelance work? e.g. clothing retail, primary education, civil service, local government

11. Which of the following best describes your situation?

- I work from home

I work at a workplace, which is not my home

I work from home and from a workplace

12. Have you achieved a qualification at degree level or above?

Yes

No

WELSH

13. Which of the following best describes your ability to speak Welsh?

I'm fluent in Welsh

I can speak a fair amount of Welsh

I can only speak a little Welsh

I can just say a few words

I don't speak Welsh

If don't speak Welsh, move on to Q.17.

SPEAKING WELSH

14. Where did you *mainly* learn to speak Welsh?

At home

School/ College/ University

In work

Welsh for adults

Whilst speaking with people living near me

15. How often do you speak Welsh?

Daily

Weekly

Less often

Never

16. How much Welsh do you use in the following situations?

None, Very little, A fair amount, Quite a lot, A great deal, Not applicable

With family living on Anglesey	None 1	2	3	4	A great deal 5	N/A
In your school on Anglesey (either as a pupil or parent/guardian)	None 1	2	3	4	5 A great deal	
With friends who live on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
With neighbours	None 1	2	3	4	5 A great deal	
Whilst shopping on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
Whilst receiving Council services on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
In the doctor's surgery on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
Whilst volunteering on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
Whilst worshipping on Anglesey (eg. Chapel, church)	None 1	2	3	4	5 A great deal	
In leisure and sports clubs on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
At work on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
In your general use of social media (eg. Facebook, Twitter, Instagram)	None 1	2	3	4	5 A great deal	
When interacting with online community/business groups associated with Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	

HEARING WELSH

17. How much Welsh do you hear in the following situations?

None, Very little, A fair amount, Quite a lot, A great deal, Not applicable

With family living on Anglesey	None 1	2	3	4	A great deal 5	N/A
In your school on Anglesey (either as a pupil or parent/guardian)	None 1	2	3	4	5 A great deal	
In the company of friends who live on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
In the company of neighbours	None 1	2	3	4	5 A great deal	
Whilst shopping on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
Whilst receiving Council services on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
In the doctor's surgery on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
Whilst volunteering on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
Whilst worshipping on Anglesey (eg. Chapel, church)	None 1	2	3	4	5 A great deal	
In leisure and sports clubs on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
At work on Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	
In your general use of social media (eg. Facebook, Twitter, Instagram)	None 1	2	3	4	5 A great deal	
When interacting with online community/business groups associated with Anglesey	None 1	2	3	4	5 A great deal	

18. Thinking about the last month, what social activities have you attended on Anglesey (e.g. clubs, societies and public events, including those online)? Please provide up to three examples. (Organised social opportunities, rather than meeting friends and visiting the pub.) Leave blank if you haven't attended a social activity in the last month and go to question 20.

--

19. Which language(s) did you use within these social activities? *(Tick one box for each activity)*

Activities	Welsh only	More Welsh than English	Both languages equally	More English than Welsh	English only	Other	Cannot remember

Activity 1							
Activity 2							
Activity 3							

ATTITUDES TOWARDS THE WELSH LANGUAGE

20. How much do you agree or disagree with the following statements?

Strongly agree, Tend to agree, Neither agree or disagree, Tend to disagree, Strongly disagree, Not applicable

Speaking Welsh is an important part of who I am	Agree 5	4	3	2	Strongly disagree 1	N/A
I have plenty of opportunities to speak Welsh	Agree 5	4	3	2	Strongly disagree 1	
I wouldn't go out of my way to ask for a service in Welsh	Agree 5	4	3	2	Strongly disagree 1	
If goods have names or branding in Welsh, I am more likely to buy them	Agree 5	4	3	2	Strongly disagree 1	

21. What is stopping you from using more Welsh on Anglesey?

22. What are the challenges facing the Welsh language on Anglesey?

23. What kind of programmes or activities would you like to see developed to promote Welsh on Anglesey?

Thank you for answering the questionnaire. Your contribution is very important to the research project.

Atodiad 3: Grwp Ffocws Pobl ifanc

Atodlen Gyfweld Grwpiau Ffocws: Pobl Ifanc

Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn

AMCANION

- Casglu barn pobl ifanc ynglŷn â'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn yn gymunedol (e.e. gweithgareddau/bywyd dydd i ddydd) ac unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith.
- Darparu argymhellion allweddol i'r Fforwm Iaith a'i bartneriaid gan gynnwys Menter Môn

Cyflwyniad - *Cydlynnydd: i gyflwyno ei hun ac i'r grŵp ffocws:*

- Diolch am ddod
- Bydd y sesiwn yn para tua awr
- Trefniadau tŷ (wyneb yn wyneb): larwm dân, toiledau, ffônau symudol
- Sôn yn fras am yr ymchwil - pwy, pam, beth (gweler y gwahoddiad)
- Cadw nodiadau / recordio (**Ydy recordio'r sesiwn yn dderbyniol i chi? Mae recordio ar gyfer trawsysgrifio yn unig**)
- Rheolau Grŵp Ffocws – cyfrinachedd, natur anhysbys, chwarae teg i bawb
- Cadarnhau cyfrinachedd- ni enwir neb o fewn y gwaith hwn
- A oes yna unrhyw gwestiynau cyn i ni gychwyn?

1) Cwestiynau cefndirol am eich cymuned

- Sut fydddech chi'n disgrifio eich cymuned chi i rywun o'r tu allan?

2) Cwestiynau ynglŷn â'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eich cymuned:

2a. Gweithgareddau pob dydd (yn y gymuned leol)

- Pryd mae'r cyfleoedd i bobl siarad Cymraeg yn eich cymuned chi?
- A ydych yn hapus gyda'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?
- Beth sy'n rhwystro neu galluogi chi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?

2b. Clybiau a chymdeithasau (yn y gymuned leol)

- Pa gyfleoedd sydd gennych i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chlybiau a chymdeithasau ar Ynys Môn? (e.e. chwaraeon, côr, ffermwyr ifanc...)
- Pwy sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgareddau yma?
- Oes yna weithgareddau/clybiau sydd ddim ar gael yn y Gymraeg?
- Efo pwy ydych chi'n siarad Cymraeg yn y clybiau a chymdeithasau hyn?

- Beth sy'n rhwystro neu galluogi chi i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chlybiau a chymdeithasau lleol?

2c. Siopau a busnesau lleol (yn y gymuned leol)

- Oes cyfleoedd yn eich cymuned chi i ddefnyddio'r Gymraeg gyda siopau a busnesau lleol?
- Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg gyda'r siopau a'r busnesau hyn?
- Oes yna siopau/busnesau lle nad oes cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg
- Beth sy'n rhwystro neu galluogi chi i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r siopau a busnesau hyn?

2d. Dylanwadau ar eich defnydd chi o'r Gymraeg

- Beth sy'n dylanwadu mwyaf ar eich defnydd chi o'r Gymraeg yn eich cymuned? (E.e. cyfleoedd, cyd-destun, addysg, hyder, rhuglder, y gwasanaethau sydd ar gael, niferoedd sy'n gallu'r Gymraeg)
- Beth oedd dylanwad y pandemig Covid-19 ar y cyfleoedd i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned (e.e. cyfleoedd cymdeithasu, addysg o adref)
- Oedd Covid-19 wedi cynnig unrhyw gyfleoedd newydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg?

3) Cwestiynau barn: Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

- Ydy'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich cymuned yn bwysig i chi?
- Ydy mynychu digwyddiadau sy'n digwydd drwy'r Gymraeg yn bwysig i chi?
- Beth yw eich barn am weithgareddau Cymraeg/dwyieithog yn eich cymuned? (E.e. digon ohonynt? Ansawdd? Hapus?)
- Beth fyddai'n annog chi ac eraill ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn gymunedol?

4) Cwestiynau ynglŷn â'r Dyfodol

- Oes yna weithgareddau Cymraeg yr hoffech weld yn cael ei datblygu o fewn eich cymuned chi?
- Yn eich barn chi, beth sy'n stopio pobl rhag defnyddio mwy o Gymraeg yn eich cymuned chi?
- Sut y gwelwch chi ddyfodol y Gymraeg o fewn eich cymuned?
- Beth ydych chi'n teimlo byddai o gymorth i annog defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau fel (Caergybi....) yn y dyfodol?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach i gynnig ar ble ddylai Cyngor Môn/Menter Môn buddsoddi ei arian o ran cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau

Oes gennych unrhyw sylwadau pellach?

Diolchiadau a chloi

Atodiad 4: Grŵp Ffocws Pobl Fusnes

Atodlen Gyfweld Grwpiau Ffocws: Pobl Fusnes

Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn

AMCANION

- Casglu barn pobl busnes am eu defnydd o'r Gymraeg o fewn eu busnesau
- Casglu enghreifftiau o heriau/rhwysterau ac arfer da
- Casglu awgrymiadau am y math o gefnogaeth a hoffai busnesau Môn wrth ddatblygu'r Gymraeg o fewn ei busnesau
- Darparu argymhellion i bartneriaid gan gynnwys Menter Môn

Cyflwyniad - *Cydlynedd: i gyflwyno ei hun ac i'r grŵp ffocws:*

- Diolch am ymuno yn y grŵp ffocws - bydd y sesiwn yn para oddeutu awr
- Mae croeso i chi gyfrannu'n Gymraeg neu yn Saesneg (**ymchwilydd i gyfieithu'n anffurfiol?**)
- Trefniadau tŷ (ar-lein): Diffodd ffonau symudol, diffodd meicroffon pan nad ydych yn siarad, croeso i chi ddefnyddio'r chat i ysgrifennu sylwadau (**sbardun: annog cyfranogwyr i wneud hyn – data defnyddiol**)
- Sôn yn fras am yr ymchwil - pwy, pam, beth (gweler y gwahoddiad)
- Pwysleisio pwysigrwydd clywed gan bobl fel chi
- Cadw nodiadau / recordio (**Ydy recordio'r sesiwn yn dderbyniol i chi? - recordio ar gyfer trawsgrifio yn unig**)
- Rheolau Grŵp Ffocws – cyfrinachedd, natur anhysbys, chwarae teg i bawb
- Cadarnhau cyfrinachedd- ni enwir neb o fewn y gwaith hwn
- Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r grwpiau ffocws yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion y prosiect hwn yn unig ac yn cael ei gyflwyno i Gyngor Môn, Menter Iaith Môn a'r cyllidwyr ar ffurf adroddiad.
- A oes yna unrhyw gwestiynau cyn i ni gychwyn?

Pawb i gyflwyno ein hunain - aelodau i rannu eu henwau cyntaf, y sector gwaith maen nhw'n gweithio, a rhywbeth byr am eu defnydd o'r iaith Gymraeg.

1) Cwestiynau cefndirol am eich cymuned

- Sut fydddech chi'n disgrifio eich cymuned chi i rywun o'r tu allan?

2) Cwestiynau ynglŷn â'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eich cymuned:

Gweithgareddau pob dydd

- Pryd/Ile mae'r cyfleoedd i bobl siarad Cymraeg yn eich cymuned chi?

3) Gweithgareddau busnes

- Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg yn eich busnes? Sut a pham?
- Pa gyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn **eich busnes** chi?
- Oes yna alw gan gwsmeriaid i chi ddarparu gwasanaethau Cymraeg?
- Oes gennych chi enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg?
- Beth yw'r heriau wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg o fewn eich busnes?

4) Dylanwad ar eich defnydd chi o'r Gymraeg yn eich busnes

- Beth sy'n dylanwadu mwyaf ar eich defnydd chi o'r Gymraeg yn eich busnes?
- Pwy sydd ar gael i'ch cefnogi chi i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog? Ydych chi wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn yn y gorffennol?
- A wnaeth pandemig Covid-19 ddylanwadu ar y cyfleoedd i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn eich busnes?

5) Y Dyfodol

- Sut y gwelwch chi ddyfodol y Gymraeg o fewn eich cymuned?
- Ydych chi'n bwriadu datblygu eich gwasanaethau iaith Gymraeg yn y dyfodol? Pam? (**os nac ydynt, pam**)
- Beth fyddai o gymorth i annog defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau fel (**Llangefni....**) yn y dyfodol?

Oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Diolchiadau a Chloi

Atodiad 5: Grŵp Ffocws Unigolion sydd wedi symud i Ynys Môn o fewn yr ugain mlynedd diwethaf

Atodlen Gyfweld Grwpiau Ffocws:

Unigolion sydd wedi symud i Ynys Môn yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf

Defnyddio'r Gymraeg ar Ynys Môn

AMCANION

- Casglu barn pobl sydd wedi symud i Ynys Môn o fewn yr 20 mlynedd diwethaf ynglŷn â'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol, y gweithgareddau cymdeithasol sydd ar gael drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog ac unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith.
- Darparu argymhellion allweddol i'r Fforwm Iaith a'i bartneriaid gan gynnwys Menter Iaith Môn

Cyflwyniad - *Cydlynnydd: i gyflwyno ei hun ac i'r grŵp ffocws:*

- Diolch am ddod
- Bydd y sesiwn yn para oddeutu awr
- Trefniadau tŷ (ar-lein): ffônau symudol
- Sôn yn fras am yr ymchwil - pwy, pam, beth (gweler y gwahoddiad)
- Pwysleisio pwysigrwydd clywed gan drigolion Ynys Môn
- Cadw nodiadau / recordio (Ydy recordio'r sesiwn yn dderbyniol i chi?)
- Rheolau Grŵp Ffocws – cyfrinachedd, natur anhysbys, chwarae teg i bawb
- Cadarnhau cyfrinachedd- ni enwir neb o fewn y gwaith hwn
- Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r grwpiau ffocws yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion y prosiect hwn yn unig ac yn cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn, Menter Iaith Môn a'r cyllidwyr ar ffurf adroddiad.
- **Croeso i chi gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg**
- A oes yna unrhyw gwestiynau cyn i ni gychwyn?

Pawb i gyflwyno ein hunain – aelodau i rannu eu henwau, lle maen nhw'n byw a rhywbeth byr am eu defnydd o'r iaith Gymraeg.

1) Cwestiynau cefndirol am eich cymuned

- Sut fydddech chi'n disgrifio eich cymuned?
- Pryd wnaethoch chi symud i Ynys Môn?
- Pam wnaethoch chi symud i Ynys Môn?
- Ble roeddech chi'n byw cyn symud i Ynys Môn?

2) Gallu ieithyddol

- a. Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?
- b. Ble wnaethoch chi ddysgu siarad Cymraeg (e.e. yn y cartref, yn yr ysgol, gwersi Cymraeg i oedolion, yn y gymuned, arall, **neu**, ddim yn siarad Cymraeg).

3) Profiad o ddefnydd o'r Gymraeg

- Beth yw eich profiad chi o'r defnydd o Gymraeg o fewn eich cymuned chi?
- Sut mae hyn yn cymharu gydag ardaloedd eraill ble rydych chi wedi byw?

4) Cwestiynau ynglŷn â'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eich cymuned:

4a. Gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol

- Pryd mae'r cyfleoedd i bobl siarad Cymraeg yn eich cymuned chi?
- Sbardun: Ymchwilydd i ofyn y pwyntiau: Gweithle, Addysg, Hamdden (e.e. clybiau a chymdeithasau), Ar-lein (e.e. Facebook a Twitter), Gwasanaethau cyhoeddus (e.e. doctoriaid, swyddfa cyngor), Siopau
- A ydych yn hapus gyda'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?
- Beth sy'n rhwystro neu galluogi chi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?

4b. Clybiau a chymdeithasau (yn y gymuned leol)

- Pa gyfleoedd sydd gennych i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chlybiau a chymdeithasau ar Ynys Môn? (e.e. chwaraeon, côr, ffermwyr ifanc...)
- Pwy sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgareddau yma?
- Oes yna weithgareddau/clybiau sydd ddim ar gael yn y Gymraeg?
- Gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg yn y clybiau a chymdeithasau hyn?
- Beth sy'n rhwystro neu galluogi chi i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chlybiau a chymdeithasau lleol?

4c. Siopau a busnesau lleol (yn y gymuned leol)

- Oes cyfleoedd yn eich cymuned chi i ddefnyddio'r Gymraeg gyda siopau a busnesau lleol?
- Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg gyda'r siopau a'r busnesau hyn?
- Oes yna siopau/busnesau lle nad oes cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg?
- Beth sy'n rhwystro neu galluogi chi i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r siopau a busnesau hyn?

4ch. Dylanwadau ar eich defnydd chi o'r Gymraeg

- Beth sy'n dylanwadu mwyaf ar eich defnydd chi o'r Gymraeg yn eich cymuned? (E.e. cyfleoedd, cyd-destun, addysg, hyder, rhuglder, y gwasanaethau sydd ar gael, niferoedd sy'n gallu'r Gymraeg)
- Beth oedd dylanwad y pandemig Covid-19 ar y cyfleoedd i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned (e.e. cyfleoedd cymdeithasu, addysg o adref)

- Oedd Covid-19 wedi cynnig unrhyw gyfleoedd newydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg? (Sbardun: e.e. unrhyw beth yn parhau i'r dyfodol?)

5) Cwestiynau barn: Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

- Ydy'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich cymuned yn bwysig i chi?
- Ydy mynychu digwyddiadau sy'n digwydd drwy'r Gymraeg yn bwysig i chi?
- Beth yw eich barn am weithgareddau Cymraeg/dwyieithog yn eich cymuned? (E.e. digon ohonynt? Ansawdd? Hapus?)
- Beth fyddai'n annog chi ac eraill ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn gymunedol?


6) Cwestiynau ynglŷn â'r Dyfodol


- Oes yna weithgareddau Cymraeg yr hoffech weld yn cael ei datblygu o fewn eich cymuned chi?
- Yn eich barn chi, beth sy'n stopio pobl rhag defnyddio mwy o Gymraeg yn eich cymuned chi?
- Sut y gwelwch chi ddyfodol y Gymraeg o fewn eich cymuned?
- Beth ydych chi'n teimlo byddai o gymorth i annog defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau fel (Llangefni....) yn y dyfodol?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach i gynnig ar ble ddylai Cyngor Sir Ynys Môn/Menter Iaith Môn buddsoddi ei arian o ran cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau

Oes gennych unrhyw sylwadau pellach?

Diolchiadau a chloi

Atodiad 6: Enghraifft o drydar Menter Iaith Môn er mwyn recriwtio ymatebwyr arolwg ar-lein

 Cyngor Sir Ynys Môn #DiogeluCymru Retweeted

 **Menter Iaith Môn** @MonIaith · 27 May

ENGLISH IN SEPARATE TWEET!

Mae'r holiadur yn fyw ers wythnos ac yn dechrau llenwi ond da ni dal angen clywed gan fwy ohonoch chi 📣

Cyfle i unrhyw un dros 16 sy'n byw ar Ynys Môn i ddweud eu dweud am y Gymraeg ym Môn!

docs.google.com/forms/d/e/1FAI...





**Eisiau dweud dy ddweud
am y Gymraeg ym Môn ?**

Dyma dy gyfle!


Rydym yn gweithio efo Prifysgol Bangor ar holiadur i ddeall mwy am ddefnydd o'r Gymraeg ar yr ynys

**Dilyn y linc yn y post i
gwblhau'r holiadur**

Rydym eisiau clywed gan bawb...
yn siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'r di-Gymraeg
Dyddiad cau 9fed o Fehefin

   **CYNGOR SIR
YNYNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**  **UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru**

Atodiad 7: Enghraifft o drydar Cyngor Sir Ynys Môn er mwyn recriwtio ymatebwyr arolwg ar-lein



The image is a screenshot of a tweet from the account 'Cyngor Sir Ynys Môn #DiogeluCymru' (@cyngormon), dated 20 May. The tweet's text is in Welsh and asks for help in understanding more about the challenges of protecting the island of Anglesey. It mentions a partnership with 'prifysgol bangor' and provides a Google Docs link for a survey. A link to a Facebook post is also included. The main visual element is a large orange speech bubble containing the word 'Cymraeg' in white text. At the bottom of the tweet, it says 'Menter Môn and 9 others'.

Cyngor Sir Ynys Môn #DiogeluCymru @cyngormon · 20 May

Helpwch ni i ddysgu mwy am y cyfleoedd sy'n bodoli'n lleol i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae ein partneriaid o @prifysgolbangor yn cynnal arolwg docs.google.com/forms/d/e/1FAI... ac yn awyddus i glywed os ydych chi'n siarad Cymraeg bob dydd neu ddim o gwbl.

Mwy yma: facebook.com/cyngormon/post...

Cymraeg

Menter Môn and 9 others

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor

r.s.hodges@bangor.ac.uk

Dr Cynog Prys, Prifysgol Bangor

c.prys@bangor.ac.uk

Ysgol Hanes, Y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas

Prifysgol Bangor

Ffordd y Coleg

Bangor

Gwynedd

LL57 2DG



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

